# Fframwaith datblygu gyrfa

Egwyddorion arweiniol i therapi galwedigaethol

Ail argraffiad



Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol

**Am y cyhoeddwr**
Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT) yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Gymdeithas Brydeinig  y Therapyddion Galwedigaethol (BAOT) ac mae'n gweithredu fel elusen gofrestredig. Mae'n cynrychioli'r proffesiwn yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac yn cyfrannu'n eang at ymgynghoriadau polisi ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r RCOT yn gosod y safonau proffesiynol ac addysgol ar gyfer therapi galwedigaethol, gan ddarparu arweinyddiaeth, arweiniad a gwybodaeth yn ymwneud ag ymchwil a datblygu, addysg, ymarfer a dysgu gydol oes. Yn ychwanegol, mae 10 o adrannau arbenigol gydag achrediad yn cefnogi ymarfer clinigol arbenigol.

I gael mwy o gyhoeddiadau a dogfennau i'w lawrlwytho am ddim ewch i
**rcot.co.uk/publications**

Fersiwn 2/2022

**Cyhoeddwyd yr ail argraffiad hwn yn 2021**
gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol 106–114 Borough High Street
London SE1 1LB
www.rcot.co.uk

**Mae hwn yn disodli'r argraffiad cyntaf, a gyhoeddwyd yn 2017**

**Ailfrandiodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Gwleidyddol yn 2022. Ailargraffwyd y cyhoeddiad hwn ym mis Chwefror 2022 i adlewyrchu'r brand newydd ond mae'r holl gynnwys arall yn parhau heb ei newid.**

Hawlfraint © Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol 2021

**Awdur:** Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol
**Ysgrifenwyr:** Dr Stephanie Tempest, Dr Karina Dancza
**Dyddiad adolygu:** 2026

**Cydnabyddiaeth**
Crëwyd y Fframwaith Datblygu Gyrfa gan aelodau, Byrddau a Grŵp Cyhoeddiadau RCOT, gyda'r Gymuned OTalk a thrwy nifer o sgyrsiau gyda phobl a ddefnyddiodd yr argraffiad cyntaf. Hoffai RCOT ddiolch i bawb a fu'n helpu i lunio a rhoi gwybodaeth ar gyfer yr argraffiad newydd.

Cedwir pob hawl, gan gynnwys y cyfieithiad. Ni all unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, ei storio mewn system adfer na'i drosglwyddo, ar unrhyw ffurf neu ddull, electronig, mecanyddol, llungopïo, recordiad, sganio neu fel arall heb ganiatâd ysgrifenedig Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol ymlaen llaw, oni bai y cytunir neu y dynodir fel arall. Ni chaniateir copïo ac eithrio ar gyfer defnydd personol a mewnol, i'r graddau a ganiateir gan gyfraith hawlfraint genedlaethol, neu dan amodau trwydded a gyhoeddwyd gan y sefydliad hawliau atgynhyrchu cenedlaethol perthnasol (fel yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint yn y Deyrnas Unedig). Dylai ceisiadau am ganiatâd i gopïo trwy ddulliau eraill, fel copïo ar gyfer ei ddosbarthu yn gyffredinol, ar gyfer dibenion hysbysebu a hyrwyddo, i greu casgliadau newydd, neu i'w hailwerthu, gael eu cyfeirio at Reolwr Cyhoeddiadau RCOT yn tessa.fincham@rcot.co.uk

Dylid cyfeirio ymholiadau cyffredinol eraill am y ddogfen hon at y Tîm Datblygiad Proffesiynol yn prof.dev@rcot.co.uk

Er i bob ymdrech gael ei gwneud i sicrhau cywirdeb, ni fydd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ddefnyddio'r cyhoeddiad hwn.

**Sylwer mai mar ffurf ar-lein yn unig y mae'r cyhoeddiad hwn ar gael**
Gall aelodau RCOT hefyd ddefnyddio amrywiaeth o offer gweithredu i'w helpu i ddefnyddio'r Fframwaith yn ymarferol. Mae'r rhain a'r PDF o'r ddogfen hon ar gael o www.rcot.co.uk/cpd-rcot

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adran 1: Trosolwg o'r Fframwaith Datblygu Gyrfa: egwyddorion arweiniol ar gyfer therapi galwedigaethol** | **1** |
| **Adran 2: Rhai syniadau am lwybrau gyrfa, dysgu a datblygiad proffesiynol** | **2** |
| **Adran 3: Ffyrdd i ddefnyddio'r Fframwaith Datblygu Gyrfa** | **5** |
| **Adran 4: Datblygu'r Fframwaith gydag aelodau** | **8** |
| **Adran 5: Yr Egwyddorion Arweiniol** | **9** |
| **5.1 Disgrifwyr y Pedwar Piler Ymarfer** | **9** |
| **5.2 Y disgrifwyr Lefel Gyrfa** | **11** |
| **5.3 Cyrhaeddiad addysgol ar wahanol Lefelau Gyrfa** | **13** |
| **5.4 Mathau o wybodaeth ar Lefelau Gyrfa 1–9** | **14** |
| **5.5 Piler Ymarfer Proffesiynol: Lefelau Gyrfa 1–9** | **18** |
| Lefel 1 – Piler Ymarfer Proffesiynol | 18 |
| Lefel 2 – Piler Ymarfer Proffesiynol | 19 |
| Lefel 3 – Piler Ymarfer Proffesiynol | 20 |
| Lefel 4 – Piler Ymarfer Proffesiynol | 21 |
| Lefel 5 – Piler Ymarfer Proffesiynol | 22 |
| Lefel 6 – Piler Ymarfer Proffesiynol | 23 |
| Lefel 7 – Piler Ymarfer Proffesiynol | 24 |
| Lefel 8 – Piler Ymarfer Proffesiynol | 25 |
| Lefel 9 – Piler Ymarfer Proffesiynol | 26 |
| **5.6 Piler Hwyluso Dysgu: Lefelau Gyrfa 1–9** | **27** |
| Lefel 1 – Piler Hwyluso Dysgu | 27 |
| Lefel 2 – Piler Hwyluso Dysgu | 28 |
| Lefel 3 – Piler Hwyluso Dysgu | 29 |
| Lefel 4 – Piler Hwyluso Dysgu | 30 |
| Lefel 5 – Piler Hwyluso Dysgu | 31 |
| Lefel 6 – Piler Hwyluso Dysgu | 32 |
| Lefel 7 – Piler Hwyluso Dysgu | 33 |
| Lefel 8 – Piler Hwyluso Dysgu | 35 |
| Lefel 9 – Piler Hwyluso Dysgu | 37 |

| | | |
|---|---|---|
| **5.7** | **Piler Arweinyddiaeth: Lefelau Gyrfa 1–9** | **39** |
| | Lefel 1 – Piler Arweinyddiaeth | 39 |
| | Lefel 2 – Piler Arweinyddiaeth | 40 |
| | Lefel 3 – Piler Arweinyddiaeth | 41 |
| | Lefel 4 – Piler Arweinyddiaeth | 42 |
| | Lefel 5 – Piler Arweinyddiaeth | 43 |
| | Lefel 6 – Piler Arweinyddiaeth | 44 |
| | Lefel 7 – Piler Arweinyddiaeth | 45 |
| | Lefel 8 – Piler Arweinyddiaeth | 47 |
| | Lefel 9 – Piler Arweinyddiaeth | 49 |
| **5.8** | **Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu: Lefelau Gyrfa 1–9** | **51** |
| | Lefel 1 – Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu | 51 |
| | Lefel 2 – Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu | 52 |
| | Lefel 3 – Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu | 53 |
| | Lefel 4 – Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu | 54 |
| | Lefel 5 – Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu | 55 |
| | Lefel 6 – Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu | 56 |
| | Lefel 7 – Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu | 57 |
| | Lefel 8 – Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu | 58 |
| | Lefel 9 – Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu | 59 |

**Adran 6: Termau allweddol** 60

**Adran 7: Atodiadau** 64

Atodiad un: Crynodeb o'r adnoddau a ddefnyddiwyd fel sail i ddatblygu'r Fframwaith hwn (gan gynnwys y rhai a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r argraffiad cyntaf) 64

Atodiad dau: Ffurflen hunan-werthusiad cychwynnol 67

**Adran 8: Cyfeiriadau ac adnoddau** 68

# Adran 1
# Trosolwg o'r Fframwaith Datblygu Gyrfa: egwyddorion arweiniol ar gyfer therapi galwedigaethol

**1.1** Mae'r *Fframwaith Datblygu Gyrfa: egwyddorion arweiniol i therapi galwedigaethol* (y cyfeirir ato yma hefyd fel 'y Fframwaith') yn cefnogi datblygiad proffesiynol y gweithlu therapi galwedigaethol yn ei gyfanrwydd i helpu i fodloni anghenion pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**1.2** Mae'r Fframwaith yn cynnig strwythur gyda set drosfwaol o egwyddorion arweiniol i roi gwybodaeth o ran datblygu gyrfa, dysgu a gweithlu yn y proffesiwn therapi galwedigaethol.

**1.3** Dyluniwyd y Fframwaith i fod yn gynhwysol ac yn berthnasol i bawb. Fe'i bwriadwyd i fod yn ymarferol, hygyrch, hyblyg ac i roi ysbrydoliaeth. Fe'i bwriadwyd i'w ddefnyddio ym mhob lleoliad, ymhob sector ac ar bob Lefel Gyrfa.

**1.4** Mae'r Fframwaith wedi ei strwythuro o gwmpas pedwar Piler Ymarfer rhyngweithiol, sef: Ymarfer Proffesiynol; Hwyluso Dysgu; Arweinyddiaeth; a Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu. Mae naw Lefel Gyrfa ar gyfer pob Piler.

**1.5** O'u defnyddio gyda'i gilydd, mae'r Pileri Ymarfer a'r Lefelau Gyrfa yn amlygu lled ac amrywiaeth y cyfleoedd sydd ar gael i bob aelod o'r proffesiwn. Mae'r Fframwaith yn ymdrin ag anghenion ar draws y gweithlu – o'r rhai sy'n newydd i therapi galwedigaethol, er enghraifft gweithiwr cefnogi newydd neu ddysgwyr cyn cofrestru, hyd at y rhai sy'n arwain y blaen wrth symud y proffesiwn yn ei flaen.

**1.6** Nid yw'r Fframwaith yn ymwneud â thâl, amodau a thelerau, na graddfa na band eich swydd bresennol. Nid yw'n offeryn rheoli perfformiad. Nid yw'n fframwaith cymhwysedd sy'n gofyn am ei gadarnhau yn ffurfiol. Gall helpu i ddynodi'r sgiliau, y wybodaeth a'r ffyrdd o feddwl sydd gan bobl yn barod neu'r rhai i'w datblygu, er enghraifft, wrth gynllunio i symud i sector gwahanol, gwneud cais am swydd newydd neu baratoi ar gyfer adolygiad blynyddol.

**1.7** Os ydych yn gobeithio datblygu cymhwysedd lleol, yn benodol i gyd-destun, gallwch ddal i ddefnyddio'r Fframwaith ond bydd angen i chi wneud hynny ochr yn ochr â safonau galwedigaethol cenedlaethol (e.e. Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig: www.ukstandards.org.uk/Pages/index.aspx).

**1.8** Dyluniwyd y Fframwaith i'w ddefnyddio ochr yn ochr â fframweithiau gallu amlbroffesiwn, llawer ohonynt hefyd yn defnyddio eu fersiynau eu hunain o'r pedwar Piler Ymarfer. Bydd hyn yn helpu i fynegi cyfraniad therapi galwedigaethol yn y gweithlu a'r system ehangach, er enghraifft ar lefelau ymarfer uwch ac ymgynghorydd.


**1.9** Roedd argraffiad cyntaf y *Fframwaith datblygu gyrfa* (2017) yn disdoli'r *Fframwaith ôl-gymhwyso: adnodd i therapyddion galwedigaethol* (COT 2006) a'r *Fframwaith gweithiwr cefnogi therapi galwedigaethol* (COT 2009).

**1.10** Yn yr un modd â'i ragflaenydd, bwriadwyd yr ail argraffiad i'w ddefnyddio ochr yn ochr â dogfennau allweddol eraill, gan gynnwys *Safonau proffesiynol ymarfer, ymddygiad a moeseg therapi galwedigaethol* (2021) Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol a *Safonau dysgu a datblygu ar gyfer Addysg Cyn-cofrestru* (2019), a safonau gan Gyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPS).

**1.11** Mae *Safonau proffesiynol ymarfer, ymddygiad a moeseg therapi galwedigaethol* (2021) yn cefnogi cynnal safonau, ymddygiadau a gwerthoedd uchel yn eich ymarfer presennol fel rhan o'r gweithlu therapi galwedigaethol. Mae'r *Fframwaith Datblygu Gyrfa* yn eich cefnogi i ddynodi beth yr ydych yn ei wybod yn barod ac yn gallu ei wneud, a ble yr ydych am fynd â'ch dysgu a datblygu nesaf.

# Adran 2
# Rhai syniadau am lwybrau gyrfa, dysgu a datblygiad proffesiynol

**2.1** Wrth ddefnyddio'r Fframwaith, edrychwch ar y pedwar Piler Ymarfer i gefnogi datblygiad gyfra gyfan, peidiwch â dim ond canolbwyntio ar un neu ddau:




**Ffigwr 1:** Pwysigrwydd y pedwar Piler i gyd i ddatblygu gyrfa gyfan

**2.2** Wrth gysylltu eich hun â'r Fframwaith, mae'n debyg y byddwch ar Lefelau gwahanol ar draws y pedwar Piler. Bydd hyn yn eich helpu i ddynodi meysydd posibl i'w datblygu wrth i chi gynllunio eich gyrfa, er enghraifft:

| Piler | Lefel Gyrfa Tybiedig |
|---|---|
| Ymarfer Proffesiynol | 7 |
| Hwyluso Dysgu | 5 |
| Arweinyddiaeth | 5 |
| Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu | 6 |

**Ffigwr 2:** Enghraifft o Lefelau Gyrfa ar gyfer pob Piler Ymarfer


**2.3** Mae proffiliau gyrfa yn esblygu dros amser. Gall rhai Lefelau Gyrfa fynd i fyny neu i lawr gan ddibynnu ar natur y rolau yr ydych yn dewis eu gwneud. Er enghraifft, os byddwch yn symud i'r byd academaidd, gall eich Lefel Ymarfer Proffesiynol fynd i lawr a bydd eich Lefel Hwyluso Dysgu yn mynd i fyny, ac mae hyn yn iawn.

**2.4** Nid yw'r lefelau gyrfa'r un fath â bandiau GIG, graddfeydd awdurdod lleol na phwyntiau hicyn addysg uwch.

**2.5** Nid oes lefel cychwn wedi ei diffinio ymlaen llaw ar gyfer staff wedi eu rheoleiddio gan yr HCPC, ac nid oes nenfwd ar gyfer staff cefnogi.


**2.6** Mae Lefelau Gyrfa gwahanol yn gofyn am wahanol fathau o wybodaeth (gweler y tablau yn Adran 5). Wrth i'ch gwybodaeth a'ch profiad dyfu dros amser, felly hefyd y bydd eich Lefel Gyrfa.

**2.7** Mae'r Lefelau Gyrfa yn gorgyffwrdd:




**Ffigwr 3:** Gorgyffwrdd rhwng Lefelau Gyrfa

**2.8** Mae Lefelau Gyrfa yn symud o newyddian i arbenigwr ac maent yn wahanol i gwmpasau neu feysydd ymarfer (h.y. arbenigeddau). Mae hyn yn golygu nad yw'r gair 'arbenigol' yn dynodi Lefel Gyrfa o fewn eich ymarfer. Er enghraifft, gallwch ddewis dechrau gweithio mewn maes arbenigol yn gynnar yn eich gyrfa a gweithredu fel technegydd cadair olwyn arbenigol newydd. Neu fe allech ddewis cadw ehangder yn eich gwaith a chael profiad mewn amrywiaeth o feysydd ymarfer nes byddwch yn cael eich cydnabod fel arbenigwr cyffredinol.




**Ffigwr 4:** Y berthynas rhwng Newyddian ac Arbenigwr ac ymarfer Arbenigol a Chyffredinol

**2.9** Er mwyn gwneud y mwyaf o'r Fframwaith Datblygu Gyrfa, bydd angen i chi gydnabod eich tybiaethau eich hun a'u herio. Bydd trafod yr egwyddorion yn eich helpu i ddysgu rhagor am safbwyntiau pobl eraill hefyd. Bydd angen i chi ystyried y cyd-destun yr ydych yn gweithio ynddo yn feirniadol, effaith eich swydd, y grym sydd yn eich dwylo a'r effaith y mae'r rhain yn ei gael ar eraill. Mae hyn yn cynnwys, (ond nid yw'n gyfyngedig i) ystyriaethau o anabledd, niwroamrywiaeth a hil.

# Adran 3
# Ffyrdd i ddefnyddio'r Fframwaith Datblygu Gyrfa

Bydd y Fframwaith Datblygu Gyrfa yn codi proffil **y proffesiwn** trwy bwysleisio'r ystod o wybodaeth, sgiliau a ffyrdd o feddwl ar draws y pedwar Piler Ymarfer sy'n benodol i therapi galwedigaethol. Mae'n cefnogi dynodi arbenigwyr yn y pedwar Piler, i feithrin a gwneud defnydd llawn o dalent therapi galwedigaethol. Mae'n galluogi aelodau o'r proffesiwn i fynegi ein hawl i ymgeisio am rolau nad ydynt yn benodol yn rhai therapi galwedigaethol neu i hybu cyflwyno rolau therapi galwedigaethol newydd mewn amrywiaeth eang o leoliadau. Mae'r Fframwaith yn atgyfnerthu hunaniaeth ar sail galwedigaeth fel y pwynt gwerthu unigryw i'r proffesiwn, beth bynnag yw'r lleoliad. Mae'n mynegi'r rôl unigryw ac allweddol y mae'r proffesiwn therapi galwedigaethol yn ei chwarae yn y gweithlu ar bob Lefel Gyrfa.

**3.1** Os ydych yn **therapydd galwedigaethol**, **gweithiwr cefnogi**, **dysgwr cyn cofrestru** neu **rhywun sydd â diddordeb mewn datblygu gyrfa ym maes therapi galwedigaethol**, gallwch ddefnyddio'r Fframwaith fel sail ar gyfer gweithgaredd dysgu ystyriol, naill ai ar eich pen eich hun neu gydag eraill, i:

- gynllunio eich datblygiad professiynol parhaus (Morais 2018) a chynnig ysbrydoliaeth i archwilio gwahanol agweddau o'ch gyrfa wrth i chi feddwl am gyfleoedd dysgu newydd;
- paratoi ar gyfer mentora, goruchwylio neu arfarniad;
- strwythuro datganiadau personol mewn ceisiadau swydd a dyrchafiad neu'r archwiliad HCPC;
- cynnal eich hunaniaeth alwedigaethol wrth weithio mewn rolau generig neu leoliadau amrywiol (Morais et al 2018);
- hyrwyddo'r cyfraniadau y gallwch chi, fel therapydd galwedigaethol, eu dwyn i rolau newydd neu amrywiol;
- mynegi eich sgiliau trosglwyddadwy o yrfaoedd blaenorol a phrofiadau byw neu wrth gynllunio i symud rhwng gwahanol leoliadau (e.e. i wneud ymchwil, ymarfer, y byd academaidd, arwain, ymarfer annibynnol neu rolau sy'n dod i'r amlwg);
- cefnogi dysgwyr cyn cofrestru ac ôl-raddedig gyda'u dysgu wrth ymarfer;
- cefnogi tiwtoriaeth, dychwelyd i ymarfer neu drosglwyddiadau gyrfa i rolau newydd;
- mynegi eich llwybr gyrfa yn y proffesiwn, gan gynnwys tra byddwch yn cynllunio ar gyfer eich ymddeoliad (Sainty 2018).

**3.2** Os ydych yn **rhywun sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol**, **aelod o'u teulu** neu **ofalwr,** mae'r Fframwaith yn mynegi gwybodaeth, sgiliau a ffyrdd o feddwl y gellir eu disgwyl o bersonél therapi galwedigaethol sy'n gweithio gyda chi. Mae'r Fframwaith yn dangos bod y proffesiwn yn cydnabod pwysigrwydd dysgu parhaus i roi darpariaeth gyfredol. Mae hyn yn golygu gallwch chi ymddiried yn ansawdd y gwasanaeth.

**3.3** Os ydych yn **gyflogwr** neu **reolwr,** mae'r Fframwaith yn cefnogi paratoi disgrifiadau swyddi. Mae'n helpu i egluro gallu penodol aelodau unigol o'r tîm, i sicrhau bod cymysgedd briodol o sgiliau, a gall gynorthwyo i gadw staff, o fewn a thu hwnt i gwmpas ymarfer traddodiadol y proffesiwn. Gellir ei ddefnyddio fel offeryn annog i ddynodi anghenion dysgu a datblygu mewn arfarniadau unigol a goruchwyliaeth neu i gefnogi ymgysylltiad datblygiad proffesiynol parhaus mewn timau (Silcock a Dunn 2019).

**3.4** Os ydych yn **ariannwr** neu **gomisiynwr gwasanaethau**, gan gynnwys gwasanaethau statudol, y diwydiant yswiriant neu reolwyr achosion, mae'r Fframwaith yn mynegi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ffordd o feddwl eang y gall therapyddion galwedigaethol eu cynnig.

| **Cychwyn arni gyda'r Fframwaith Datblygu Gyrfa: cyngor gan bobl â phrofiad o ddefnyddio'r argraffiad cyntaf (gweler hefyd Morais et al 2018):** |
|---|
| Cyn dechrau arni, gall deimlo ychydig yn frawychus neu eich bod yn agor eich hun i'r byd wrth feddwl am osod eich hun ar Lefelau Gyrfa gwahanol ar gyfer pob Piler. Peidiwch â phoeni; mae'n beth cyffredin ac mae'n pasio. Yr un fath â'r rhan fwyaf o ffurfiau o hunanwerthuso, mae ychydig yn heriol. |
| Ymgyfarwyddwch â strwythur y Fframwaith, h.y. y pedwar Piler a'r egwyddorion arweiniol ym mhob un o'r Lefelau Gyrfa. Efallai y byddwch yn ei gweld yn haws dechrau trwy ddarllen y disgrifwyr Lefel Gyrfa a'r gofynion gwybodaeth ar ddechrau pob Piler. |
| Ar ôl i chi gael syniad ble y gallech chi fod yn ffitio, ysgrifennwch y Lefel y gallwch fod arni ar gyfer pob Piler. |
| Ewch i'r manylion cyfatebol yn yr egwyddorion arweiniol ar gyfer y Piler a'r Lefel. Efallai y bydd angen i chi symud i fyny ac i lawr y gwahanol Lefelau yn y Piler. Mae llawer o bobl wedi rhyfeddu gweld eu bod yn uwch nag yr oeddent yn meddwl. Ailadroddwch hyn ar gyfer pob Piler. |
| Mapiwch eich hun ar y Fframwaith gyda chefnogaeth ffrind beirniadol neu gydweithiwr y gallwch ymddiried ynddo. Gallwch ei ddefnyddio i gynnig strwythur ar gyfer trafodaethau gyrfa, sy'n aml yn gallu bod yn ddadlennol. |
| Peidiwch â gweld pob Piler ar ei ben ei hun, nid ydynt yn cau ei gilydd allan ac mewn gwirionedd, maent wedi eu cyd-blethu yn aml. Mae elfennau o bob Piler ym **mhob** maes gwaith. Mae hwn yn bwynt allweddol. |
| Mae'n debygol iawn y byddwch ar wahanol Lefelau Gyrfa ar Bileri gwahanol, neu gallwch fod ar yr un Lefelau ar gyfer pob Piler – mae'r ddau yn iawn. |
| Os ydych yn gweithio yn y GIG, cofiwch nad yw'r Lefelau Gyrfa yr un fath â Bandiau GIG. Peidiwch â digalonni os ydych wedi eich cyflogi ar Fand 7 ond eich bod yn cyrraedd Lefel 6 (neu is) ar gyfer rhai Pileri – maen nhw'n bethau gwahanol. |
| Meddyliwch amdanoch eich hun a'r **holl** brofiadau, sgiliau a gwybodaeth a gawsoch trwy gydol eich oes waith, gan gynnwys gyrfaoedd blaenorol, eich profiadau personol a thrwy rolau heb fod yn y gwaith. Peidiwch â barnu eich hun yn ôl cyfyngiadau eich swydd bresennol – mae'r Fframwaith hwn yn ymwneud â chi a datblygiad eich gyrfa gyfan. |
| Nid oes raid i chi fedru 'ticio' yr holl egwyddorion arweiniol mewn Lefel i'w 'basio'. Wrth leoli eich hun ar y Fframwaith, gwnewch benderfyniad greddfol ar ble yr ydych yn ffitio orau yn ôl pob Piler - nid oes fformiwla osodedig y mae angen ei weithredu. Defnyddiwch o yn hyblyg i fodloni eich anghenion orau. |
| Derbyniwch bod rhai o'r termau yn oddrychol. Mae'n her meddwl am hyn yng nghyswllt eich maes gwaith chi eich hun, ond gall fod yn sail ar gyfer trafodaeth. Mae'n rhoi lle i dwf parhaus waeth ble yr ydych ar eich gyrfa. |
| Ar ôl i chi leoli eich hun ar y Fframwaith, ystyriwch a chynlluniwch pa egwyddorion yr ydych am ganolbwyntio arnyn nhw nesaf o ran eich dysgu a datblygu. A chofiwch ail-ymweld â'ch cynllun yn gyson (e.e. wrth baratoi ar gyfer goruchwyliaeth). |

# Adran 4
# Datblygu'r Fframwaith gydag aelodau

**4.1** Roedd argraffiad cyntaf y Fframwaith Datblygu Gyrfa yn cynnwys gweithio gyda channoedd o aelodau RCOT, ar draws y Deyrnas Unedig yn bennaf, ac fe'i cyhoeddwyd ym Medi 2017. Fe'i seiliwyd ar y *Fframwaith Datblygu Gyrfa Ôl-gofrestru* sydd ar gael o www.careerframework.nes.scot.nhs.uk (NHS Education for Scotland 2016) a'r *Fframwaith Sgiliau i Ddatblygu Gyrfa Iechyd* (2016), ar gael o https://skillsforhealth.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/Employability-skills-matrix.pdf, defnyddiwyd y ddau gyda chaniatâd caredig.

**4.2** Wrth i'r Fframwaith gael ei weithredu, dewisodd pobl ei ddefnyddio mewn ffyrdd gwahanol. Bu aelodau RCOT yn gweithio gyda ni i gynhyrchu amrywiaeth o adnoddau dysgu amlgyfrwng a thempledi, gan gynnwys cynllun 12 mis, olwyn leoli a thempled i olrhain Lefelau Gyrfa mewn timau (gweler www.rcot.co.uk/cpd-rcot). Mae'r gwaith i gefnogi a gwerthuso'r gweithrediad wedi parhau. Cynhaliwyd gwerthusiad ffurfiol yn 2018 (gweler Morais et al 2018).

**4.3** Cyhoeddwyd llawer o fframweithiau gallu, strategaethau, dogfennau polisi ac adnoddau eraill ar draws y Deyrnas Unedig ers 2017. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn yr ail argraffiad o'r Fframwaith i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â nhw ac yn parhau yn adnodd cyfoes (gweler Adran 7: Atodiad un).

**4.4** Datblygwyd yr ail argraffiad yn ailadroddol ers lansiad yr argraffiad cyntaf, ar sail adborth gwirioneddol gan y rhai oedd yn ei ddefnyddio yn ogystal â thrwy werthusiad ffurfiol a phrosesau ymgynghori, gan gynnwys ymgynghoriad penodol o safbwynt cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Trwy'r cylch parhaus hwn o welliant, rydym yn gallu dynodi cryfderau'r Fframwaith gwreiddiol ac ymhle yr oedd angen ei adolygu. Er enghraifft, yn yr ail argraffiad mae pob egwyddor wedi cael cod unigryw i'w wneud yn haws i ddynodi anghenion dysgu a datblygu parhaus. Rhoddwyd adnodd hunan-werthuso cychwynnol hefyd (gweler Adran 7: Atodiad dau).

**4.5** Datblygwyd fersiynau drafft cynnar o'r ail argraffiad trwy drafodaethau anffurfiol gydag aelodau a'r proffesiwn ehangach, gan gynnwys trwy gyfryngau cymdeithasol (e.e. sgwrs drydar wedi ei threfnu ar y cyd â'r tîm #OATalk). Bu Byrddau Dysgu a Datblygu ac Ymchwil a Datblygu RCOT hefyd yn trafod adrannau o'r fersiynau drafft cynnar gan roi adborth.

**4.6** Bydd y Fframwaith Datblygu Gyrfa yn parhau i esblygu. Bydd argraffiadau'r dyfodol yn ceisio ymwreiddio egwyddorion cyd-gynhyrchu yn y broses adolygu, er mwyn galluogi i lais pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol fod yn sail i waith yn y dyfodol.

Rydym yn gwerthfawrogi clywed sut yr ydych yn defnyddio'r Fframwaith yn ymarferol a'r effaith y mae'n ei gael ar eich dysgu a datblygu. Rhannwch eich barn: trwy e-bost at prof.dev@rcot.co.uk; trwy'r wefan yn www.rcot.co.uk/cpd-rcot neu ar y cyfryngau cymdeithasol yn www.twitter.com/theRCOT gan ddefnyddio #RCOTCareerFramework neu yn https://www.facebook.com/theRCOT


# Adran 5
# Yr Egwyddorion Arweiniol

Mae'r Fframwaith wedi ei strwythuro o gwmpas y pedwar Piler Ymarfer (gweler Ffigwr 5). Mae datblygu gyrfa gyfan yn dibynnu ar ehangu eich gwybodaeth, sgiliau a ffyrdd o feddwl ar draws y pedwar Piler.

Defnyddir y pedwar Piler Ymarfer yn eang ar draws y Deyrnas Unedig, gan gynnwys mewn fframweithiau aml-ddisgyblaeth. Mae rhywfaint o amrywiadau yn y geiriad, ond maent yr un fath yn eu hanfod. Yng nghyd-destun therapi galwedigaethol, disgrifir y disgrifwyr canlynol:

## 5.1 Disgrifwyr y Pedwar Piler Ymarfer

| | |
|---|---|
| **Ymarfer Proffesiynol (P)** | • Cadw galwedigaeth yn ganolog i'ch ymarfer<br>• Cyflawni ymarfer diogel, effeithiol, sy'n rhoi pwyslais ar yr unigolyn ac yn foesegol<br>• Defnyddio barn broffesiynol a rhesymu beirniadol ar sail tystiolaeth i wneud penderfyniadau |
| **Hwyluso Dysgu (F)** | • Ysbrydoli, dysgu, mentora, goruchwylio a/neu asesu eraill<br>• Hwyluso dysgu wrth ymarfer a dysgu yn y gwaith<br>• Defnyddio, creu a gwerthuso amgylcheddau, offer a deunyddiau dysgu cyfoes |
| **Arweinyddiaeth (L)** | • Dynodi, monitro a chryfhau eich gwybodaeth, sgiliau a ffyrdd o feddwl eich hun a rhai eraill<br>• Arwain, cyfarwyddo a/neu hwyluso gwaith tîm<br>• Dylanwadu, dylunio, cynllunio a gweithredu newid proffesiynol a/neu sefydliadol |
| **Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu (E)** | • Defnyddio, gwerthuso a gweithredu tystiolaeth i fod yn sail i ymarfer<br>• Cychwyn, dylunio, cymryd rhan a rhannu ymchwil<br>• Ymgysylltu a dylanwadu ar agendâu cymdeithasol-economaidd a gwleidyddol ehangach |




**Ffigwr 5:** Cynrychiolaeth weledol o'r Pedwar Piler Ymarfer

## 5.2 Y disgrifwyr Lefel Gyrfa

Mae naw Lefel Gyrfa ar gyfer pob Piler, a ddefnyddir tu hwnt i'n proffesiwn hefyd, a amlinellir fel a ganlyn:

**Pobl ar:**

**Lefel 1** â gwybodaeth gyffredinol sylfaenol ac ymwybyddiaeth o rôl therapi galwedigaethol; yn gallu cyflawni dyletswyddau ar sail ymarfer, technegol, yn ymwneud ag ymchwil neu weinyddol yn ôl protocolau neu weithdrefnau sefydledig, gyda chyfarwyddyd a/neu oruchwyliaeth uniongyrchol; yn dechrau gweithio yn y sector o'r newydd, nid yn syth o'r ysgol o angenrheidrwydd; yn gallu symud yn gyflym i Lefel 2; yn ymwybodol o brosiectau gwella ansawdd, a'r angen am hunanddatblygiad.

**Lefel 2** â dealltwriaeth sylfaenol o therapi galwedigaethol a chwmpas y gwaith; gallu cyflawni dyletswyddau ar sail ymarfer, technegol, yn gysylltiedig ag ymchwil neu weinyddol yn ôl protocolau neu weithdrefnau sydd wedi eu sefydlu, gyda chyfarwyddyd a goruchwyliaeth; cymryd rhan mewn gwella ansawdd; yn dechrau dynodi meysydd ar gyfer hunanddatblygiad.

**Lefel 3** â gwybodaeth a dealltwriaeth o ffeithiau, gweithdrefnau, prosesau, egwyddorion a chysyniadau cyffredinol therapi galwedigaethol mewn cwmpas gwaith; gallu cyflawni amrywiaeth eang o ddyletswyddau wedi eu dirprwyo gyda chyfarwyddyd a goruchwyliaeth pan fydd eu hangen; yn cyfrannu at wella ansawdd, ac yn gyfrifol am hunanddatblygiad.

**Lefel 4** â gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion, gweithdrefnau, prosesau a chysyniadau cyffredinol therapi galwedigaethol mewn cwmpas gwaith; yn cael eich arwain gan weithdrefnau gweithredu a phrotocolau safonol; yn llunio barn, cynllunio gweithgareddau; yn cyfrannu at wella ansawdd yn dangos hunanddatblygiad; gallwch fod â chyfrifoldeb am agweddau o oruchwylio rhai staff neu ddysgwyr.


**Lefel 5** â gwybodaeth gynhwysfawr, ffeithiol a damcaniaethol a dealltwriaeth o therapi galwedigaethol a therfynau'r wybodaeth honno; yn ddatryswr problemau creadigol; yn gwerthuso'r dystiolaeth yn feirniadol; yn llunio barn yn eich cylch gwaith eich hun; yn cyfrannu'n weithredol at wella ansawdd, gweithgareddau ymchwil a hunanddatblygiad; gallwch fod â chyfrifoldeb am oruchwylio staff neu ddysgwyr; gallwch fod yn ymarferwr cofrestredig, neu gallwch fod heb eich rheoleiddio â'ch crefft neu faes arbenigol eich hun (e.e. sgiliau ystum ac eistedd).

**Lefel 6** â gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol ar lefel uwch; yn gallu herio terfynau proffesiynol yn briodol; yn arloesi cynlluniau blaengar; yn gyfrifol am wella ansawdd mewn amgylcheddau cymhleth; arwain mewn cyd-destunau gwasanaethau/ ymchwil/addysg; goruchwylio staff/dysgwyr; hunanddatblygu'n rhagweithiol.

**Lefel 7** â gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol ar lefel uwch; yn gallu herio terfynau proffesiynol yn briodol; yn arloesi cynlluniau blaengar; yn gyfrifol am wella ansawdd mewn amgylcheddau cymhleth; arwain mewn cyd-destunau gwasanaethau/ ymchwil/addysg; goruchwylio staff/dysgwyr; hunanddatblygu'n rhagweithiol.

**Lefel 8** â'r wybodaeth, sgiliau a ffyrdd o feddwl mwyaf datblygedig; ar y blaen yn y proffesiwn; yn arweinydd strategol, dylanwadwr gwleidyddol a meddyliwr gwreiddiol; yn gyfrifol ac ateb am gyllid; gwella ansawdd ac ymchwil (gan gynnwys dylunio a chynyddu gallu) a/neu dimau lluosog; goruchwylio staff/dysgwyr; hunanddatblygu'n reddfol.

**Lefel 9** â'r wybodaeth, sgiliau a ffyrdd o feddwl therapi galwedigaethol mwyaf datblygedig a blaengar yn y cyd-destun ehangach; yn datblygu gwasanaethau i fodloni anghenion y boblogaeth; yn gweithio ar y lefel uchaf ar draws sefydliadau; yn atebol am berfformiad staff/gwasanaethau; yn dylanwadu ar lefel system; yn arwain rhaglenni gwella ansawdd ac ymchwil sy'n siapio'r modd y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu; yn goruchwylio staff/dysgwyr; yn hunanddatblygu'n dawel.




**Ffigwr 6:** Cynrychiolaeth weledol o Lefelau'r Fframwaith Gyrfa

## 5.3 Cyrhaeddiad addysgol ar wahanol Lefelau Gyrfa

| Lefel Gyrfa | Cymwysterau y *gellid* eu disgwyl ar y Lefel hon o'r Fframwaith Datblygu Gyrfa |
|---|---|
| 1 | • Mathemateg a Saesneg i TGAU, graddau safonol neu gyfatebol<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad personol mewn swyddi blaenorol a/neu addysg |
| 2 | • Mathemateg a Saesneg i TGAU, graddau safonol neu gyfatebol<br>• Cymhwyster addysg bellach (e.e. Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (Lefel 2), Cymhwyster Galwedigaethol yr Alban (Lefel 2) neu barodrwydd i gwblhau cymwysterau addysg bellach/cael profiad cyfatebol<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad personol mewn swyddi blaenorol a/neu addysg |
| 3 | • Mathemateg a Saesneg i TGAU, graddau safonol neu gyfatebol<br>• Cymhwyster addysg bellach (e.e. Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (Lefel 2/3), Cymhwyster Galwedigaethol yr Alban (Lefel 2/3)<br>• Tystiolaeth o addysg neu hyfforddiant sy'n berthnasol i therapïau<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad personol mewn swyddi blaenorol a/neu addysg |
| 4 | • Mathemateg a Saesneg i TGAU, graddau safonol neu gyfatebol<br>• Cymhwyster addysg uwch (e.e. Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (Lefel 3/4), Cymhwyster Galwedigaethol yr Alban (Lefel 3/4), Tystysgrif Genedlaethol Uwch, gradd sylfaen)<br>• Tystiolaeth o addysg neu hyfforddiant sy'n berthnasol i therapïau<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad personol mewn swyddi blaenorol a/neu addysg |
| 5 | • Diploma mewn Therapi Galwedigaethol<br>• Gradd, gradd anrhydedd, tystysgrif ôl-raddedig, diploma ôl-raddedig neu radd meistr (cyn cofrestru) mewn Therapi Galwedigaethol |
| 6 | • Diploma mewn Therapi Galwedigaethol<br>• Gradd, gradd anrhydedd neu radd meistr mewn Therapi Galwedigaethol<br>• Astudiaeth ôl-raddedig ffurfiol (â dyfarniad neu heb ddyfarniad) |
| 7 | • Tystysgrif neu ddiploma ôl-raddedig<br>• Gradd meistr (ôl-raddedig)<br>• Astudiaeth ôl-raddedig ffurfiol (â dyfarniad neu heb ddyfarniad) |
| 8 | • Gradd meistr (ôl-raddedig)<br>• Astudiaeth ôl-raddedig ffurfiol (â dyfarniad neu heb ddyfarniad)<br>• Doethuriaeth |
| 9 | • Gradd meistr (ôl-raddedig)<br>• Astudiaeth ôl-raddedig ffurfiol (â dyfarniad neu heb ddyfarniad)<br>• Doethuriaeth |

## 5.4 Mathau o wybodaeth ar Lefelau Gyrfa 1–9

Mae angen gwahanol fathau o wybodaeth ar Lefelau Gyrfa gwahanol. Mae pob Piler Ymarfer yn seiliedig ar bedair thema wybodaeth. Mae'r dyfnder o wybodaeth y disgwylir i chi ei gael ar bob un o'r themâu yma yn amrywio ar draws y Lefelau Gyrfa, fel y dangosir isod. Gallant gael eu defnyddio yn hyblyg i gynllunio dysgu a datblygiad proffesiynol.

**Tabl 5.1** Ymarfer Proffesiynol: y mathau o wybodaeth sy'n ofynnol ar wahanol Lefelau Gyrfa

<table>
<tr><th colspan="3">Ymarfer Proffesiynol</th></tr>
<tr><th>Lefel Gyrfa</th><th>Lefel y wybodaeth</th><th>Themâu</th></tr>
<tr><td>1</td><td>Gwybodaeth sylfaenol gyffredinol am:</td><td rowspan="9">1) Pwysigrwydd galluogi pobl i wneud y pethau y maent eisiau, eu hangen neu y disgwylir iddynt eu gwneud i'w cefnogi i fod yn dda yn eu bywyd yn eu cyd-destunau a'u cefndiroedd diwylliannol eu hunain<br><br>2) Pwysigrwydd gofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain fel rhan o ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol<br><br>3) Cyflyrau iechyd, amlygiadau a'r elfennau ehangach sy'n pennu iechyd sy'n effeithio ar allu unigolyn i wneud y pethau mae'n dymuno eu gwneud, eu hangen neu y mae disgwyl iddynt eu gwneud (e.e. addysg a sgiliau, bwyd, gwaith da, tai, arian ac adnoddau, ffrindiau, teulu a chymunedau, trafnidiaeth)<br><br>4) Egwyddorion adsefydlu, gan gynnwys cyfraniad unigryw therapi galwedigaethol, a gwybodaeth a sgiliau rhyngbroffesiynol</td></tr>
<tr><td>2</td><td>Dealltwriaeth a gwybodaeth sylfaenol am gysyniadau sy'n sail i therapi galwedigaethol, gan gynnwys:</td></tr>
<tr><td>3</td><td>Gwybodaeth am ffeithiau, egwyddorion, prosesau a chysyniadau cyffredinol gan gynnwys:</td></tr>
<tr><td>4</td><td>Gwybodaeth ffeithiol a damcaniaethol am:</td></tr>
<tr><td>5</td><td>Gwybodaeth ffeithiol a damcaniaethol gynhwysfawr am:</td></tr>
<tr><td>6</td><td>Gwybodaeth uwch a dealltwriaeth feirniadol o:</td></tr>
<tr><td>7</td><td>Gwybodaeth ddatblygedig a dealltwriaeth feirniadol o:</td></tr>
<tr><td>8</td><td>Gwybodaeth ar y lefel uchaf am:</td></tr>
<tr><td>9</td><td>Gwybodaeth ar y lefel uchaf a blaengar am:</td></tr>
</table>

**Tabl 5.2** Ymarfer Proffesiynol: y mathau o wybodaeth sy'n ofynnol ar wahanol Lefelau Gyrfa

| Hwyluso Dysgu | | |
|---|---|---|
| **Lefel Gyrfa** | **Lefel y wybodaeth** | **Themâu** |
| 1 | Gwybodaeth sylfaenol gyffredinol am: | 1) Pwysigrwydd galluogi pobl i wneud yr hyn sydd arnynt ei angen, ei eisiau neu y disgwylir iddynt ei wneud yn eu bywydau bob dydd, fel rhan o'u helpu i fyw bywyd yn dda<br>2) Pobl fel bodau galwedigaethol<br>3) Damcaniaethau gwahanol am y ffyrdd y mae plant (addysgegol) ac oedolion (dysgu oedolion) yn dysgu<br>4) Damcaniaethau dysgu eraill (e.e. damcaniaeth ddysgu gymdeithasol) |
| 2 | Dealltwriaeth a gwybodaeth sylfaenol am gysyniadau sy'n sail i therapi galwedigaethol, gan gynnwys: | |
| 3 | Gwybodaeth am ffeithiau, egwyddorion, prosesau a chysyniadau cyffredinol gan gynnwys: | |
| 4 | Gwybodaeth ffeithiol a damcaniaethol am: | |
| 5 | Gwybodaeth ffeithiol a damcaniaethol gynhwysfawr am: | |
| 6 | Gwybodaeth uwch a dealltwriaeth feirniadol o: | |
| 7 | Gwybodaeth ddatblygedig a dealltwriaeth feirniadol o: | |
| 8 | Gwybodaeth ar y lefel uchaf am: | |
| 9 | Gwybodaeth ar y lefel uchaf a blaengar am: | |

**Tabl 5.3** Arweinyddiaeth: y mathau o wybodaeth sy'n ofynnol ar wahanol Lefelau Gyrfa

| Arweinyddiaeth | | |
|---|---|---|
| **Lefel Gyrfa** | **Lefel y wybodaeth** | **Themâu** |
| 1 | Gwybodaeth sylfaenol gyffredinol am: | 1) Cyfraniad unigryw therapi galwedigaethol wrth hybu galwedigaeth er mwyn iechyd a llesiant pawb.<br>2) Ffyrdd i arwain a gweithio gydag eraill, gan gynnwys y damcaniaethau sy'n sail i arferion arwain<br>3) Y diwylliannau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol a'r cyd-destunau a sut y gall y rhain ddylanwadu ar eich gwaith eich hun<br>4) Hawliau a chyfrifoldebau amdanoch eich hun ac eraill yng nghyswllt proffesiynoldeb, iechyd a lles yn y gweithle |
| 2 | Dealltwriaeth a gwybodaeth sylfaenol am gysyniadau sy'n sail i therapi galwedigaethol, gan gynnwys: | |
| 3 | Gwybodaeth am ffeithiau, egwyddorion, prosesau a chysyniadau cyffredinol gan gynnwys: | |
| 4 | Gwybodaeth ffeithiol a damcaniaethol am: | |
| 5 | Gwybodaeth ffeithiol a damcaniaethol gynhwysfawr am: | |
| 6 | Gwybodaeth uwch a dealltwriaeth feirniadol o: | |
| 7 | Gwybodaeth ddatblygedig a dealltwriaeth feirniadol o: | |
| 8 | Gwybodaeth ar y lefel uchaf am: | |
| 9 | Gwybodaeth ar y lefel uchaf a blaengar am: | |

**Tabl 5.4** Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu: y mathau o wybodaeth sy'n ofynnol ar wahanol Lefelau Gyrfa

<table>
<tr><th colspan="3">Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu</th></tr>
<tr><th>Lefel Gyrfa</th><th>Lefel y wybodaeth</th><th>Themâu</th></tr>
<tr><td>1</td><td>Gwybodaeth sylfaenol gyffredinol am:</td><td rowspan="9">1) Pobl fel bodau galwedigaethol a phwysigrwydd galluogi pobl i wneud y pethau y maent eisiau, eu hangen neu y disgwylir iddynt eu gwneud i gefnogi eu llesiant<br><br>2) Damcaniaethau sy'n sail i ymarfer therapi galwedigaethol, gwyddor alwedigaethol a'r seiliau tystiolaeth cysylltiedig sy'n berthnasol i'r proffesiwn<br><br>3) Y cysyniadau sy'n rhan o wneud ymchwil (e.e. cyd-gynhyrchu gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, y broses foeseg, cadw cofnodion manwl)<br><br>4) Dulliau ymchwil gwahanol, gan gynnwys dulliau a methodoleg (e.e. dulliau mesuradwy a dadansoddi data)</td></tr>
<tr><td>2</td><td>Dealltwriaeth a gwybodaeth sylfaenol am gysyniadau sy'n sail i therapi galwedigaethol, gan gynnwys:</td></tr>
<tr><td>3</td><td>Gwybodaeth am ffeithiau, egwyddorion, prosesau a chysyniadau cyffredinol gan gynnwys:</td></tr>
<tr><td>4</td><td>Gwybodaeth ffeithiol a damcaniaethol am:</td></tr>
<tr><td>5</td><td>Gwybodaeth ffeithiol a damcaniaethol gynhwysfawr am:</td></tr>
<tr><td>6</td><td>Gwybodaeth uwch a dealltwriaeth feirniadol o:</td></tr>
<tr><td>7</td><td>Gwybodaeth ddatblygedig a dealltwriaeth feirniadol o:</td></tr>
<tr><td>8</td><td>Gwybodaeth ar y lefel uchaf am:</td></tr>
<tr><td>9</td><td>Gwybodaeth ar y lefel uchaf a blaengar am:</td></tr>
</table>

## 5.5 Piler Ymarfer Proffesiynol: Lefelau Gyrfa 1–9

### Lefel 1 – Piler Ymarfer Proffesiynol

**Ffyrdd o feddwl:**

**P1.1** Gwrando yn weithredol ar farn eraill i helpu i ddatrys problemau arferol.

**P1.2** Bod yn ymwybodol yn fwriadol o'ch gwerthoedd eich hun, diwylliant a safle, a'r effaith y mae'r rhain yn ei gael ar eich gwaith ac ar eraill.

**P1.3** Ystyried gwahanol safbwyntiau, bod yn barod i newid, cwestiynu eich hun ac eraill, ceisio cyngor gan gydweithwyr mwy profiadol, er budd y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**P1.4** Gweithio ar dasgau penodol a ddirprwywyd a sylfaenol o fewn y protocolau a sefydlwyd gyda goruchwyliaeth uniongyrchol.

**P1.5** Gweithio gyda rhywfaint o annibyniaeth ac fel rhan o dîm i wneud gweithgareddau penodol a nodir mewn protocolau sydd wedi eu sefydlu gyda goruchwyliaeth uniongyrchol.

**P1.6** Gweithio o fewn polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol a lleol (gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, gwynion, cyfrinachedd, cydsyniad, diogelu data, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, moeseg, iechyd a diogelwch, rheoli risg a diogelu).

**P1.7** Cyfathrebu gwybodaeth yn effeithiol a chryno mewn sefyllfaoedd arferol, gan gynnwys gyda rheolwyr llinell, cydweithwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**P1.8** Deall pwysigrwydd parch, a gweithredu ar adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr a helpu i gynnal safonau uchel ac ansawdd yn eich gwaith eich hun.

## Lefel 2 – Piler Ymarfer Proffesiynol

**Ffyrdd o feddwl:**

**P2.1** Gwrando yn weithredol ar farn eraill i ddatrys problemau arferol.

**P2.2** Bod yn ymwybodol yn fwriadol o'ch gwerthoedd eich hun, diwylliant a safle, a'r effaith y mae'r rhain yn ei gael ar eich gwaith ac ar eraill.

**P2.3** Ystyried gwahanol safbwyntiau, bod yn barod i newid, a chwestiynu eich hun ac eraill yn eich gwaith eich hun, ceisio cyngor gan gydweithwyr mwy profiadol yn ôl yr angen, er budd y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**P2.4** Gweithio ar dasgau penodol a ddirprwywyd o fewn y protocolau a sefydlwyd gyda goruchwyliaeth anuniongyrchol.

**P2.5** Gweithio gyda rhywfaint o annibyniaeth ac fel rhan o dîm i wneud gweithgareddau a ddirprwywyd a nodir mewn protocolau sydd wedi eu sefydlu gyda mynediad uniongyrchol at gydweithwyr mwy profiadol.

**P2.6** Gweithio o fewn polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol a lleol (gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, gwynion, cyfrinachedd, cydsyniad, diogelu data, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, moeseg, iechyd a diogelwch, rheoli risg a diogelu).

**P2.7** Cyfathrebu gwybodaeth yn effeithiol a chryno mewn sefyllfaoedd arferol, gan gynnwys gyda rheolwyr llinell, cydweithwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**P2.8** Deall pwysigrwydd parch, a gweithredu ar adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr a helpu i gynnal safonau uchel ac ansawdd yn eich gwaith eich hun.

## Lefel 3 – Piler Ymarfer Proffesiynol

**Ffyrdd o feddwl:**

**P3.1** Gwrando yn weithredol ar farn eraill i hwyluso datrys problemau.

**P3.2** Bod yn ymwybodol yn fwriadol o'ch gwerthoedd eich hun, diwylliant a safle, a'r effaith y mae'r rhain yn ei gael ar eich gwaith ac ar eraill.

**P3.3** Ystyried gwahanol safbwyntiau, bod yn barod i newid a chwestiynu eich hun ac eraill wrth wneud penderfyniadau, gydag arweiniad pan fydd angen gan gydweithwyr mwy profiadol, er budd y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**P3.4** Cyflawni elfennau arferol o'r broses therapi galwedigaethol gyda goruchwyliaeth uniongyrchol neu anuniongyrchol.

**P3.5** Gweithio gyda rhywfaint o annibyniaeth ac fel rhan o dîm, rheoli gweithgareddau a ddirprwywyd, a derbyn atebolrwydd a chyfrifoldeb am eich gweithredoedd eich hun.

**P3.6** Gweithio o fewn polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol a lleol (gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, gwynion, cyfrinachedd, cydsyniad, diogelu data, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, moeseg, iechyd a diogelwch, rheoli risg a diogelu).

**P3.7** Cyfathrebu gwybodaeth yn effeithiol a chryno mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan gynnwys gyda rheolwyr llinell, cydweithwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**P3.8** Deall pwysigrwydd parch, a gweithredu ar adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr a helpu i gynnal safonau uchel ac ansawdd yn eich gwaith eich hun.

## Lefel 4 – Piler Ymarfer Proffesiynol

### Ffyrdd o feddwl:

**P4.1** Gwrando yn weithredol ar farn eraill i hwyluso datrys problemau a llunio barn eich hun.

**P4.2** Bod yn ymwybodol yn fwriadol o'ch gwerthoedd eich hun, diwylliant a safle, a'r effaith y mae'r rhain yn ei gael ar eich gwaith ac ar eraill.

**P4.3** Ystyried gwahanol safbwyntiau, bod yn barod i newid a chwestiynu eich hun ac eraill wrth wneud penderfyniadau, gydag arweiniad pan fydd angen gan gydweithwyr mwy profiadol, er budd y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

### Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):

**P4.4** Cyflawni elfennau o'r broses therapi galwedigaethol gyda goruchwyliaeth uniongyrchol neu anuniongyrchol.

**P4.5** Gweithio gyda rhywfaint o annibyniaeth ac fel rhan o dîm, rheoli baich gwaith a ddirprwywyd o fewn cylch o ymarfer a derbyn atebolrwydd a chyfrifoldeb am eich gweithredoedd eich hun.

**P4.6** Gweithio o fewn polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol a lleol (gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, gwynion, cyfrinachedd, cydsyniad, diogelu data, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, moeseg, iechyd a diogelwch, rheoli risg a diogelu).

**P4.7** Cyfathrebu gwybodaeth yn effeithiol a chryno mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan gynnwys gyda rheolwyr llinell, cydweithwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**P4.8** Deall pwysigrwydd parch, a gweithredu ar adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr a helpu i gynnal safonau uchel ac ansawdd yn eich gwaith eich hun.

## Lefel 5 – Piler Ymarfer Proffesiynol

### Ffyrdd o feddwl:

**P5.1** Gwrando yn weithredol ac ystyried anghenion a barn pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**P5.2** Gwrando yn weithredol a cheisio barn eraill yn y tîm aml-broffesiwn i hwyluso perchenogaeth ar y cyd o lunio penderfyniadau.

**P5.3** Bod yn ymwybodol yn fwriadol o'ch gwerthoedd eich hun, diwylliant a safle, a'r effaith y mae'r rhain yn ei gael ar eich gwaith ac ar eraill.

**P5.4** Meddwl yn feirniadol, ystyried a bod yn barod i newid wrth lunio barn broffesiynol, gydag arweiniad pan fydd angen gan eraill, er budd y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

### Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):

**P5.5** Cyflawni'r broses therapi galwedigaethol, gan gynnwys rheoli cymhlethdod, gyda goruchwyliaeth yn ôl y gofyn.

**P5.6** Gweithio yn annibynnol ac fel rhan o dîm, rheoli baich gwaith a ddirprwywyd o fewn cylch o ymarfer a derbyn atebolrwydd a chyfrifoldeb proffesiynol.

**P5.7** Gweithio o fewn polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol a lleol (gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, gwynion, cyfrinachedd, cydsyniad, diogelu data, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, moeseg, iechyd a diogelwch, rheoli risg a diogelu), gofynion rheoleiddiol Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal pan fydd hynny'n addas a *Safonau ymarfer, ymddygiad a moeseg proffesiynol* Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (2021).

**P5.8** Rhannu gwybodaeth yn effeithiol a chryno mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

**P5.9** Rhannu ac amddiffyn eich safbwynt eich hun yn gryno ac addas mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan gynnwys gydag uwch reolwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

**P5.10** Defnyddio systemau ffurfiol i gael adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**P5.11** Gweithredu ymarfer sy'n hyrwyddo cyfranogiad, cynhwysiant a hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn unol â'u dewisiadau.

**P5.12** Arfer barn broffesiynol i reoli risg, gan gynnwys cymryd risgiau cadarnhaol.

## Lefel 6 – Piler Ymarfer Proffesiynol

**Ffyrdd o feddwl:**

**P6.1** Gwrando yn weithredol ac ystyried anghenion a barn pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**P6.2** Gwrando yn weithredol a cheisio barn eraill yn y tîm amlbroffesiwn i hwyluso perchenogaeth ar y cyd o lunio penderfyniadau.

**P6.3** Bod yn ymwybodol yn fwriadol o'ch gwerthoedd eich hun, diwylliant a safle, a'r effaith y mae'r rhain yn ei gael ar eich gwaith ac ar eraill.

**P6.4** Meddwl yn feirniadol, ystyried a bod yn barod i newid wrth lunio barn broffesiynol, gan gynnwys y rhai mewn cyd-destunau mwy cymhleth ac annos eu rhagweld, gydag arweiniad pan fydd angen gan eraill, er budd y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**P6.5** Cyflawni'r broses therapi galwedigaethol, gan gynnwys rheoli cymhlethdod, gydag arweiniad gan eraill yn ôl y gofyn.

**P6.6** Gweithio yn annibynnol ac fel rhan o dîm a derbyn atebolrwydd a chyfrifoldeb proffesiynol am agwedd benodol o ddarparu gwasanaeth.

**P6.7** Gweithio o fewn polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol a lleol (gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, gwynion, cyfrinachedd, cydsyniad, diogelu data, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, moeseg, iechyd a diogelwch, rheoli risg a diogelu), gofynion rheoleiddiol Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal pan fydd hynny'n addas a *Safonau ymarfer, ymddygiad a moeseg proffesiynol* Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (2021), a chefnogi eraill i wneud hynny.

**P6.8** Rhannu ac amddiffyn eich safbwynt eich hun yn gryno ac addas mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan gynnwys i uwch reolwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

**P6.9** Defnyddio systemau ffurfiol i gael adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr ac ymateb yn briodol iddo.

**P6.10** Ymateb yn adeiladol i ymholiadau a chwynion.

**P6.11** Gweithredu ymarfer sy'n hyrwyddo cyfranogiad, cynhwysiant a hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn unol â'u dewisiadau, a chefnogi eraill i wneud hynny.

**P6.12** Arfer barn broffesiynol i reoli risg, gan gynnwys cymryd risgiau cadarnhaol, a chefnogi eraill i wneud hynny.

## Lefel 7 – Piler Ymarfer Proffesiynol

### Ffyrdd o feddwl:

**P7.1** Gwrando yn weithredol ac ystyried anghenion a barn pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**P7.2** Gwrando yn weithredol a cheisio barn eraill yn y system i hwyluso perchenogaeth ar y cyd o lunio penderfyniadau.

**P7.3** Bod yn ymwybodol yn fwriadol o'ch gwerthoedd eich hun, diwylliant a safle, a'r effaith y mae'r rhain yn ei gael ar eich gwaith ac ar eraill.

**P7.4** Meddwl yn feirniadol, ystyried a bod yn barod i newid wrth lunio barn broffesiynol, gan gynnwys y rhai mewn cyd-destunau mwy cymhleth ac annos eu rhagweld, gydag arweiniad pan fydd angen gan eraill, er budd y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

### Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):

**P7.5** Cwblhau'r broses therapi galwedigaethol gan ddefnyddio sgiliau llunio penderfyniadau datblygedig mewn cyd-destunau cymhleth lle nad oes protocolau a llwybrau yn bodoli o bosibl.

**P7.6** Gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm, deall cwmpas ymarfer proffesiynol a'i ddatblygu i greu ffyrdd newydd o weithio er budd y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**P7.7** Gweithio o fewn polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol a lleol (gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, gwynion, cyfrinachedd, cydsyniad, diogelu data, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, moeseg, iechyd a diogelwch, rheoli risg a diogelu), gofynion rheoleiddiol Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal a *Safonau ymarfer, ymddygiad a moeseg proffesiynol* Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (2021), a chefnogi eraill i wneud hynny.

**P7.8** Derbyn atebolrwydd a chyfrifoldeb proffesiynol am agwedd eang o ddarparu gwasanaeth.

**P7.9** Bod yn esiampl i eraill o ran sgiliau cyfathrebu datblygedig, gan gynnwys gwrando gweithredol, negodi, rheoli newyddion sensitif a chyfiawnhau eich barn eich hun.

**P7.10** Ymateb yn adeiladol i ymholiadau a chwynion a chefnogi eraill i wneud hynny.

**P7.11** Defnyddio systemau ffurfiol i gael adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**P7.12** Cyfrannu at strategaethau ac arferion sy'n herio stigma a gwahaniaethu ac sy'n hyrwyddo cyfranogiad a chynhwysiant i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn unol â'u dewisiadau, a chefnogi eraill i wneud hynny.

**P7.13** Arfer barn broffesiynol i reoli risg, gan gynnwys cymryd risgiau cadarnhaol, yn arbennig mewn sefyllfaoedd cymhleth na ellir eu rhagweld, a chefnogi eraill i wneud hynny.

**P7.14** Ymwreiddio gwerthuso effaith mewn ymarfer, ar draws pob lleoliad ac ar lefel weithredol.

## Lefel 8 – Piler Ymarfer Proffesiynol

### Ffyrdd o feddwl:

**P8.1** Gwrando yn weithredol ac ystyried anghenion a barn pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**P8.2** Gwrando yn weithredol a cheisio barn eraill i hwyluso perchenogaeth ar y cyd o lunio penderfyniadau.

**P8.3** Bod yn ymwybodol yn fwriadol o'ch gwerthoedd eich hun, diwylliant a safle, a'r effaith y mae'r rhain yn ei gael ar eich gwaith ac ar eraill.

**P8.4** Meddwl yn feirniadol, bod yn barod i newid ac ystyried wrth lunio barn broffesiynol, gan gynnwys y rhai yn y cyd-destunau mwyaf cymhleth ac anoddaf eu rhagweld, gydag arweiniad pan fydd angen gan eraill, er budd y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, a chefnogi eraill i wneud hynny.

**P8.5** Llunio barn feirniadol a phenderfyniadau mewn amgylchiadau pan na fydd cynsail yn bodoli.

### Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):

**P8.6** Bod yn esiampl o'r ffordd i gwblhau'r broses therapi galwedigaethol gan ddefnyddio sgiliau llunio penderfyniadau datblygedig mewn cyd-destunau cymhleth ac anodd eu rhagweld.

**P8.7** Gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm ar draws systemau, deall cwmpas ymarfer proffesiynol a'i ddatblygu i greu ffyrdd newydd o weithio er budd y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**P8.8** Derbyn atebolrwydd a chyfrifoldeb proffesiynol am ddarparu gwasanaeth.

**P8.9** Gweithio o fewn polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol a lleol (gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, gwynion, cyfrinachedd, cydsyniad, diogelu data, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, moeseg, iechyd a diogelwch, rheoli risg a diogelu), gofynion rheoleiddiol Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal a *Safonau ymarfer, ymddygiad a moeseg proffesiynol* Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (2021), a chefnogi eraill i wneud hynny.

**P8.10** Bod yn esiampl i eraill o ran sgiliau cyfathrebu arbenigol, gan gynnwys gwrando gweithredol, negodi, rheoli newyddion sensitif a chyfiawnhau eich barn eich hun.

**P8.11** Cymryd atebolrwydd proffesiynol am reolaeth gyffredinol ar gwynion a/neu wrthdaro.

**P8.12** Cyfrannu at strategaethau ac arferion sy'n herio stigma a gwahaniaethu ac sy'n hyrwyddo cyfranogiad, cynhwysiant a llunio penderfyniadau ar y cyd gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn unol â'u dewisiadau, a chefnogi eraill i wneud hynny.

**P8.13** Ymwreiddio gwerthuso effaith mewn ymarfer, ar draws pob lleoliad ac ar lefelau strategol a gweithredol.

**P8.14** Bod yn esiampl o sgiliau barn broffesiynol i reoli risg, gan gynnwys cymryd risgiau cadarnhaol, yn arbennig mewn sefyllfaoedd cymhleth na ellir eu rhagweld, a chefnogi eraill i wneud hynny.

**P8.15** Hwyluso adolygu cydweithredol ar wasanaethau, safonau, canllawiau a pholisïau, gan gynnwys trwy archwilio, ail-ddylunio gwasanaeth a gwerthuso deilliannau.

**P8.16** Gweithredu, adolygu a datblygu systemau ffurfiol i gael adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

## Lefel 9 – Piler Ymarfer Proffesiynol

### Ffyrdd o feddwl:

**P9.1** Gwrando yn weithredol a cheisio barn eraill, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ac eraill ar draws y system, i hwyluso perchenogaeth ar y cyd o lunio penderfyniadau.

**P9.2** Bod yn ymwybodol yn fwriadol o'ch gwerthoedd eich hun, diwylliant a safle, a'r effaith y mae'r rhain yn ei gael ar eich gwaith ac ar eraill.

**P9.3** Meddwl yn feirniadol, bod yn barod i newid ac ystyried wrth wneud penderfyniadau proffesiynol gan gynnwys y rhai yn y cyd-destunau mwyaf cymhleth a llai rhagweladwy, gydag arweiniad gan eraill yn ôl y gofyn.

**P9.4** Bod yn agored i newid er mwyn ystyried ffyrdd o weithio'n wahanol ar draws y system er budd y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, a chefnogi eraill i wneud hynny.

**P9.5** Llunio barn feirniadol a phenderfyniadau gan gynnwys mewn amgylchiadau pan na fydd cynsail yn bodoli.

### Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):

**P9.6** Bod yn esiampl o'r ffordd i asesu, ymyrryd a gwerthuso gan ddefnyddio llunio penderfyniadau annibynnol mewn cyd-destunau cymhleth ac anodd eu rhagweld, ar draws y system.

**P9.7** Gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm a derbyn atebolrwydd a chyfrifoldeb proffesiynol ar lefel system.

**P9.8** Gweithio o fewn polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol a lleol (gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, gwynion, cyfrinachedd, cydsyniad, diogelu data, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, moeseg, iechyd a diogelwch, rheoli risg a diogelu), gofynion rheoleiddiol Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal a *Safonau ymarfer, ymddygiad a moeseg proffesiynol* Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (2021), a chefnogi eraill i wneud hynny.

**P9.9** Bod yn esiampl i eraill o ran sgiliau cyfathrebu arbenigol, gan gynnwys gwrando gweithredol, negodi, ymdrin â gwybodaeth sensitif a chyfiawnhau eich barn eich hun.

**P9.10** Cymryd atebolrwydd proffesiynol am y prosesau strategol a'r penderfyniadau cyffredinol a wnaed am reoli cwynion a/neu wrthdaro.

**P9.11** Cyfrannu at strategaethau ac arferion sy'n herio stigma ac sy'n hyrwyddo cyfranogiad, cynhwysiant a llunio penderfyniadau ar y cyd gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn unol â'u dewisiadau.

**P9.12** Sicrhau bod prosesau strategol cadarn yn eu lle ar gyfer adolygu cydweithredol ar wasanaethau, safonau, canllawiau a pholisïau, gan gynnwys trwy archwilio, ail-ddylunio gwasanaeth a gwerthuso deilliannau.

**P9.13** Ymwreiddio gwerthuso effaith mewn ymarfer, ar draws pob lleoliad ac ar lefel strategol.

**P9.14** Bod yn esiampl o sgiliau barn broffesiynol i reoli risg, gan gynnwys cymryd risgiau cadarnhaol, yn arbennig mewn sefyllfaoedd cymhleth na ellir eu rhagweld, a chefnogi eraill i wneud hynny.

**P9.15** Sicrhau bod prosesau strategol yn eu lle i gael adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

# 5.6 Piler Hwyluso Dysgu: Lefelau Gyrfa 1–9

## Lefel 1 – Piler Hwyluso Dysgu

**Ffyrdd o feddwl:**

**F1.1** Chwilio am gyfleoedd i ddysgu gan a gydag eraill.

**F1.2** Ystyried sut y mae'r hyn a ddysgwyd o waith arall a phrofiadau bywyd blaenorol o fudd i'ch gwaith presennol.

**F1.3** Bod yn barod i dderbyn cyfarwyddyd gan gydweithwyr mwy profiadol i ddynodi a gweithredu ar eich anghenion dysgu eich hun, ar draws y pedwar Piler Ymarfer.

**F1.4** Cydnabod yr angen i ddysgu am sut y mae eich ymddygiad a'ch gwerthoedd yn effeithio ar eraill.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**F1.5** Cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a datblygu perthnasol, eu defnyddio a'u cofnodi i ddynodi effaith a budd eich dysgu i chi ac eraill, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**F1.6** Cefnogi eraill i ddysgu am bwysigrwydd gwneud gweithgareddau i fod yn iach a theimlo'n dda.

**F1.7** Cymryd rhan weithredol mewn dysgu parhaus, gan gynnwys ymgyfarwyddo, cynefino, hyfforddiant gorfodol a chyfleoedd addysgiadol/datblygu perthnasol.

## Lefel 2 – Piler Hwyluso Dysgu

### Ffyrdd o feddwl:

**F2.1** Chwilio am gyfleoedd i ddysgu gan a gydag eraill.

**F2.2** Ystyried sut y mae'r hyn a ddysgwyd o waith arall a phrofiadau bywyd blaenorol o fudd i'ch gwaith presennol.

**F2.3** Dynodi ffyrdd o gyfrannu at ddiwylliant lle mae pawb yn cael ei annog i ddysgu'n gyson (gan gynnwys o gamgymeriadau), derbyn a rhoi adborth adeiladol, a dysgu gyda'i gilydd ac oddi wrth ei gilydd.

**F2.4** Cydnabod yr angen i ddysgu sut y mae eich ymddygiad a'ch gwerthoedd chi eich hun yn effeithio ar eraill.

### Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):

**F2.5** Cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a datblygu perthnasol, eu defnyddio a'u cofnodi i ddynodi effaith a budd eich dysgu i chi ac eraill, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**F2.6** Cefnogi eraill i ddysgu am bwysigrwydd gwneud gweithgareddau i fod yn iach a theimlo'n dda.

**F2.7** Cadarnhau eich gwybodaeth, sgiliau a ffyrdd o feddwl, a dechrau dynodi eich anghenion dysgu eich hun ar draws y pedwar Piler Ymarfer, trwy gymryd rhan ragweithiol mewn goruchwyliaeth/mentora cyson.

**F2.8** Cymryd rhan weithredol mewn dysgu parhaus, gan gynnwys ymgyfarwyddo, cynefino, hyfforddiant gorfodol a chyfleoedd addysgiadol/datblygu perthnasol.

**F2.9** Defnyddio sgiliau addysgu sylfaenol i gefnogi pobl i ddysgu technegau newydd neu ail feithrin rhai oedd ganddynt (e.e. y defnydd cywir o offer safonol).

## Lefel 3 – Piler Hwyluso Dysgu

**Ffyrdd o feddwl:**

**F3.1** Chwilio am gyfleoedd i ddysgu gan a gydag eraill.

**F3.2** Ystyried sut y mae'r hyn a ddysgwyd o waith arall a phrofiadau bywyd blaenorol o fudd i'ch gwaith presennol.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**F3.3** Cymryd rhan weithredol mewn dysgu parhaus, gan gynnwys ymgyfarwyddo, cynefino, hyfforddiant gorfodol a chyfleoedd addysgiadol/datblygu perthnasol.

**F3.4** Cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a datblygu perthnasol, eu defnyddio a'u cofnodi, dynodi effaith a budd eich dysgu i chi a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**F3.5** Cefnogi eraill i ddysgu am bwysigrwydd gwneud gweithgareddau i fod yn iach a theimlo'n dda.

**F3.6** Dechrau dynodi eich anghenion dysgu eich hun ar draws y pedwar Piler Ymarfer, trwy gymryd rhan ragweithiol mewn goruchwyliaeth/mentora cyson.

**F3.7** Cefnogi pobl i ddysgu technegau newydd neu ail feithrin rhai oedd ganddynt (e.e. y defnydd cywir o offer symud ac addasol).

**F3.8** Cyfrannu at ddiwylliant lle mae pawb yn cael ei annog i ddysgu'n gyson (gan gynnwys o gamgymeriadau), derbyn a rhoi adborth adeiladol, a dysgu gyda'i gilydd ac oddi wrth ei gilydd.

**F3.9** Cyfrannu at gyflawni a gwerthuso adnoddau addysgol (e.e. i ddysgwyr cyn cofrestru ac ôl-raddedig, a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a gofalwyr).

**F3.10** Cyfrannu at gefnogi dysgu wrth ymarfer yn eich gweithle eich hun (e.e. trwy raglenni ymgyfarwyddo a chynefino).

**F3.11** Ceisio adborth i ddysgu sut y mae eich ymddygiad a'ch gwerthoedd chi eich hun yn effeithio ar eraill, ac ymateb yn briodol i'r adborth hwnnw.

## Lefel 4 – Piler Hwyluso Dysgu

### Ffyrdd o feddwl:

**F4.1** Ymwneud yn weithredol mewn dysgu parhaus, gan gynnwys ymgyfarwyddo, cynefino, hyfforddiant gorfodol a chyfleoedd addysgiadol/datblygiadol perthnasol.

**F4.2** Ystyried sut y mae'r hyn a ddysgwyd o waith arall a phrofiadau bywyd blaenorol o fudd i'ch gwaith presennol.

**F4.3** Dangos ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chael dealltwriaeth glir o lefel yr astudiaeth sy'n cael ei dilyn, y deilliannau dysgu penodol a'r disgwyliadau cysylltiedig wrth gefnogi dysgwyr, neu fod yn ddysgwr, yn ystod dysgu wrth ymarfer neu hyfforddiant 'yn y gwaith', i gryfhau dysgu diogel ac effeithiol.

### Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):

**F4.4** Cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a datblygu perthnasol eu defnyddio a'u cofnodi a dynodi effaith a budd eich dysgu i chi ac eraill, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**F4.5** Hyrwyddo gwerth galwedigaethau er iechyd a llesiant eraill.

**F4.6** Dynodi eich anghenion dysgu eich hun ar draws y pedwar Piler Ymarfer, trwy gymryd rhan ragweithiol mewn goruchwyliaeth/mentora cyson.

**F4.7** Cefnogi pobl i ddysgu technegau newydd neu ail feithrin rhai oedd ganddynt (e.e. y defnydd cywir o offer safonol).

**F4.8** Cefnogi creu diwylliant lle mae pawb yn cael ei annog i ddysgu (gan gynnwys o gamgymeriadau), derbyn a rhoi adborth adeiladol, a dysgu gyda'i gilydd ac oddi wrth ei gilydd.

**F4.9** Cyfrannu at ddatblygu a gwerthuso adnoddau addysgol (e.e. i ddysgwyr cyn cofrestru ac ôl-raddedig, a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr).

**F4.10** Cyfrannu at oruchwylio, mentora ac addysgu eraill (gan gynnwys dysgwyr cyn cofrestru) gyda chydweithwyr mwy profiadol yn ôl y gofyn.

**F4.11** Ymwneud â phrosesau adolygu gan gymheiriaid i gefnogi eich dysgu eich hun.

**F4.12** Ceisio adborth yn weithredol am sut y mae eich ymddygiad a'ch gwerthoedd chi eich hun yn effeithio ar eraill, ac ymateb yn briodol i'r adborth hwnnw.

## Lefel 5 – Piler Hwyluso Dysgu

### Ffyrdd o feddwl:

**F5.1** Ymwneud yn weithredol mewn dysgu parhaus, gan gynnwys ymgyfarwyddo, cynefino, hyfforddiant gorfodol a chyfleoedd addysgiadol/datblygiadol perthnasol.

**F5.2** Chwilio am gyfleoedd i ddysgu gan a gydag eraill.

**F5.3** Ystyried sut y mae'r hyn a ddysgwyd o waith arall a phrofiadau bywyd blaenorol o fudd i'ch gwaith presennol.

**F5.4** Dangos ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chael dealltwriaeth glir o lefel yr astudiaeth sy'n cael ei dilyn, y deilliannau dysgu penodol a'r disgwyliadau cysylltiedig wrth gefnogi dysgwyr cyn cofrestru, neu fod yn ddysgwr, yn ystod dysgu wrth ymarfer neu hyfforddiant 'yn y gwaith', i gryfhau dysgu diogel ac effeithiol.

### Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):

**F5.5** Cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol, eu defnyddio a'u cofnodi ar draws y pedwar Piler Ymarfer, i ddynodi effaith a budd eich dysgu i chi ac eraill, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**F5.6** Cefnogi ac ysbrydoli pobl i ddysgu am werth galwedigaethau er iechyd a llesiant.

**F5.7** Dynodi eich anghenion dysgu eich hun ar draws y pedwar Piler Ymarfer, trwy gymryd rhan ragweithiol mewn goruchwyliaeth/mentora proffesiynol cyson ac ymarfer ystyriol.

**F5.8** Cefnogi pobl (e.e. dysgwyr) i ddysgu technegau newydd (e.e. sgiliau astudio, sgiliau cadw egni).

**F5.9** Cefnogi creu diwylliant lle mae pawb yn cael ei annog i ystyried a dysgu yn barhaus (gan gynnwys o gamgymeriadau), derbyn a rhoi adborth adeiladol, a dysgu gyda'i gilydd ac oddi wrth ei gilydd.

**F5.10** Goruchwylio, mentora ac addysgu eraill (gan gynnwys dysgwyr cyn cofrestru) ar gyfer agweddau arferol ar ymarfer, gyda chydweithwyr mwy profiadol yn ôl y gofyn.

**F5.11** Cyfrannu at ddatblygu a gwerthuso adnoddau addysgol (e.e. i ddysgwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr).

**F5.12** Cyfrannu at rwydweithiau proffesiynol i hybu cyfnewid gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau.

**F5.13** Ymwneud â phrosesau adolygu gan gymheiriaid i gefnogi eich dysgu eich hun.

**F5.14** Ceisio adborth yn weithredol i ddysgu sut y mae ein hymddygiad a'ch gwerthoedd chi eich hun yn effeithio ar eraill, ac ymateb yn briodol i'r adborth hwnnw.

## Lefel 6 – Piler Hwyluso Dysgu

### Ffyrdd o feddwl:

**F6.1** Ymwneud yn weithredol mewn dysgu parhaus, gan gynnwys ymgyfarwyddo, cynefino, hyfforddiant gorfodol a chyfleoedd addysgiadol/datblygiadol perthnasol, a chefnogi eraill i wneud hynny.

**F6.2** Wrth gefnogi dysgwyr cyn cofrestru neu fod yn ddysgwr mewn lleoliad ymarfer neu yn ystod hyfforddiant 'yn y swydd', dangos ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chael dealltwriaeth glir o lefel yr astudiaeth sy'n cael ei dilyn, y deilliannau dysgu penodol a'r disgwyliadau cysylltiedig a gweithio gyda'ch gilydd i egluro beth yw'r rhain i gryfhau dysgu diogel ac effeithiol.

**F6.3** Chwilio yn rhagweithiol am gyfleoedd i weithio ar draws lleoliadau ymarferol ac addysgu (e.e. recriwtio myfyrwyr cyn cofrestru/ôl-raddedig, dysgu wrth ymarfer, datblygu cwricwlwm/addysgu, asesu).

### Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):

**F6.4** Cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol, eu defnyddio a'u cofnodi ar draws y pedwar Piler Ymarfer, i ddynodi effaith a budd eich dysgu i chi ac eraill, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, a chefnogi eraill i wneud hynny.

**F6.5** Cefnogi ac ysbrydoli pobl i addysgu a dysgu am werth galwedigaethau er iechyd a llesiant.

**F6.6** Cadarnhau eich gwybodaeth, sgiliau ac agweddau eich hun a dynodi eich anghenion dysgu eich hun ac eraill ar draws y pedwar Piler Ymarfer, trwy gymryd rhan ragweithiol mewn goruchwyliaeth/mentora proffesiynol cyson ac ymarfer ystyriol.

**F6.7** Cefnogi dysgwyr ac addysgwyr i ystyried a gweithredu technegau newydd i wella'r dysgu.

**F6.8** Hwyluso creu diwylliant lle mae pawb yn cael ei annog i ystyried a dysgu (gan gynnwys o gamgymeriadau), derbyn a rhoi adborth adeiladol, a dysgu gyda'i gilydd ac oddi wrth ei gilydd.

**F6.9** Datblygu a gwerthuso adnoddau addysgol o safon uchel (e.e. i ddysgwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr).

**F6.10** Goruchwylio, mentora ac addysgu eraill (gan gynnwys dysgwyr cyn cofrestru).

**F6.11** Cyfrannu at rwydweithiau proffesiynol i hybu cyfnewid gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau a phrosesau adolygu gan gymheiriaid.

**F6.12** Annog dysgu trwy herio hunan-fodlonrwydd, gweithredoedd a ffyrdd o feddwl nad ydynt er budd y cyhoedd a/neu'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**F6.13** Cefnogi'r cyfle ar gyfer dysgu wrth ymarfer yn eich tîm/cwmpas ymarfer eich hun i bawb, gan gynnwys dysgwyr cyn cofrestru ac ôl-raddedig.

**F6.14** Bod yn esiampl yn weithredol gan geisio adborth i ddysgu sut y mae eich ymddygiad a'ch gwerthoedd chi eich hun yn effeithio ar eraill, a defnyddio dull rhagweithiol i ymateb yn briodol i'r adborth hwnnw.

## Lefel 7 – Piler Hwyluso Dysgu

### Ffyrdd o feddwl:

**F7.1** Ymwneud yn weithredol mewn dysgu parhaus, gan gynnwys ymgyfarwyddo, cynefino, hyfforddiant gorfodol a chyfleoedd addysgiadol/datblygiadol perthnasol, a chefnogi eraill i wneud hynny.

**F7.2** Wrth gefnogi neu weithio fel dysgwr, neu fod yn ddysgwr yn y lleoliad ymarfer, dangos ymwybyddiaeth ddiwylliannol a deall lefel yr astudiaeth sy'n cael ei dilyn, y deilliannau dysgu penodol a'r disgwyliadau cysylltiedig, a gallu egluro'r rhain i gryfhau dysgu diogel ac effeithiol.

**F7.3** Ystyried a cheisio gweithredu potensial y dysgu sy'n dod i'r amlwg a'r prosesau datblygu (e.e. dysgu trwy dechnoleg) i hyrwyddo dysgu hygyrch a hyblyg i bawb.

**F7.4** Ceisio'n rhagweithiol i weithio ar draws lleoliadau ymarferol ac addysgu (e.e. recriwtio myfyrwyr, dysgu wrth ymarfer, datblygu cwricwlwm, addysgu, asesu).

**F7.5** Ystyried ystod o fodelau i gyflawni dysgu wrth ymarfer diogel ac effeithiol (e.e. cymorth cymheiriaid, hyd braich, rhyngbroffesiynol, o bell/rhithwir).

### Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):

**F7.6** Bod yn esiampl o ffyrdd o gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol eu defnyddio a'u cofnodi ar draws y pedwar Piler Ymarfer, i ddynodi effaith a budd eich dysgu i chi ac eraill, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**F7.7** Bod yn esiampl o ffyrdd o addysgu a dysgu am werth galwedigaethau er iechyd a llesiant.

**F7.8** Dynodi ac ymateb yn briodol i'ch anghenion dysgu eich hun a'r tîm ehangach ar draws y pedwar Piler Ymarfer, trwy gymryd rhan ragweithiol mewn goruchwyliaeth/mentora proffesiynol cyson ac ymarfer ystyriol.

**F7.9** Cefnogi dysgwyr ac addysgwyr i ystyried yn feirniadol a defnyddio technegau newydd i wella'r dysgu.

**F7.10** Eiriol dros, a hwyluso creu diwylliant lle mae pawb yn cael ei annog i ystyried a dysgu (gan gynnwys o gamgymeriadau), derbyn a rhoi adborth adeiladol, a dysgu gyda'i gilydd ac oddi wrth ei gilydd.

**F7.11** Datblygu a gwerthuso adnoddau addysgol o safon uchel (e.e. i ddysgwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr) a dulliau cyflwyno newydd.

**F7.12** Gweithredu fel esiampl i ysbrydoli, goruchwylio, mentora ac addysgu eraill (gan gynnwys dysgwyr) gan geisio creu a datblygu hyder.

**F7.13** Cyfrannu a chyd-gynhyrchu rhwydweithiau rhyngbroffesiynol i hybu cyfnewid gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau a phrosesau adolygu gan gymheiriaid.

**F7.14** Creu cyfleoedd i chi eich hun ac eraill i weithio ar draws lleoliadau ymarferol ac addysgol (e.e. recriwtio myfyrwyr, dysgu wrth ymarfer, datblygu/addysgu cwricwlwm, asesu).

**F7.15** Cyfrannu'n weithredol at ddatblygu cwricwla cyn cofrestru.

**F7.16** Annog dysgu trwy herio hunan-fodlonrwydd, gweithredoedd a ffyrdd o feddwl nad ydynt er budd y cyhoedd a/neu'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**F7.17** Cefnogi datblygu prosesau i greu'r gallu gorau ar gyfer dysgu wrth ymarfer i'r holl ddysgwyr.

**F7.18** Bod yn esiampl yn weithredol gan geisio adborth i ddysgu sut y mae ein hymddygiad a'n gwerthoedd ni ein hunain yn effeithio ar eraill, a defnyddio dull rhagweithiol i ymateb yn briodol i'r adborth hwnnw.

**F7.19** Arfarnu ac ymateb i gymhelliant, gwerthoedd diwylliannol, lefelau ymarfer a gallu unigolion i gefnogi eu datblygiad proffesiynol eu hunain.

## Lefel 8 – Piler Hwyluso Dysgu

### Ffyrdd o feddwl:

**F8.1** Ymwneud yn weithredol mewn dysgu parhaus, gan gynnwys ymgyfarwyddo, cynefino, hyfforddiant gorfodol a chyfleoedd addysgiadol/datblygiadol perthnasol, a chefnogi eraill i wneud hynny.

**F8.2** Ystyried y potensial mewn prosesau dysgu a datblygu sy'n dod i'r amlwg (e.e. dysgu trwy dechnoleg) i hyrwyddo dysgu hygyrch a hyblyg i bawb.

**F8.3** Wrth arwain eraill i gefnogi dysgwyr cyn cofrestru, sicrhau eu bod yn dangos ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chael dealltwriaeth glir o lefel yr astudiaeth sy'n cael ei dilyn, y deilliannau dysgu penodol a'r disgwyliadau cysylltiedig i gryfhau dysgu diogel ac effeithiol.

**F8.4** Ystyried ystod o fodelau i gyflawni dysgu wrth ymarfer diogel ac effeithiol (e.e. cymorth cymheiriaid, hyd braich, rhyngbroffesiynol, o bell/rhithwir).

### Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):

**F8.5** Sicrhau bod strategaethau yn eu lle i gefnogi'r holl ddysgwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol, eu defnyddio a'u cofnodi ar draws y pedwar Piler Ymarfer.

**F8.6** Bod yn esiampl o ffyrdd o addysgu a dysgu am werth galwedigaethau er iechyd a llesiant.

**F8.7** Dynodi ac ymateb yn briodol i'ch anghenion dysgu eich hun ac eraill ar draws y pedwar Piler Ymarfer, trwy gymryd rhan ragweithiol mewn cefnogi cymheiriaid/mentora ac ymarfer ystyriol.

**F8.8** Cefnogi dysgwyr ac addysgwyr o amrywiaeth o gohortau/rhaglenni niferus i ystyried yn feirniadol a defnyddio technegau newydd i wella'r dysgu.

**F8.9** Creu diwylliant lle mae pawb yn cael ei annog i ystyried a dysgu (gan gynnwys o gamgymeriadau), derbyn a rhoi adborth adeiladol, a dysgu gyda'i gilydd ac oddi wrth ei gilydd.

**F8.10** Datblygu a gwerthuso adnoddau addysgol o safon uchel (e.e. i ddysgwyr cyn cofrestru ac ôl-raddedig, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr), gan gynnwys y rhai sy'n hyrwyddo gwerth galwedigaethau ar gyfer iechyd a llesiant.

**F8.11** Gweithredu fel esiampl i ysbrydoli, goruchwylio, mentora, cefnogi cymheiriaid ac addysgu eraill (e.e. goruchwylio MSc/PhD, cydweithio ar ymchwil) i gryfhau perfformiad ac effeithiolrwydd eraill.

**F8.12** Cyfrannu at, cyd-gynhyrchu ac adolygu effaith rhwydweithiau rhyngbroffesiynol i gynorthwyo cyfnewid gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau a phrosesau adolygu gan gymheiriaid.

**F8.13** Herio hunan-fodlonrwydd, gweithredoedd a ffyrdd o feddwl nad ydynt er budd y cyhoedd a/neu'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**F8.14** Sefydlu prosesau effeithiol i sicrhau argaeledd a gallu gorau ar gyfer dysgu wrth ymarfer o'r safon uchaf i'r holl ddysgwyr.

**F8.15** Cyfrannu'n weithredol at ddatblygu cwricwla cyn cofrestru ac ôl-raddedig.

**F8.16** Sicrhau bod prosesau effeithiol yn eu lle i greu cyfleoedd i chi eich hun ac eraill i weithio ar draws lleoliadau ymarferol ac addysgol (e.e. aelodaeth o fyrddau, dysgu wrth ymarfer, datblygu/addysgu cwricwlwm, asesu).

**F8.17** Bod yn esiampl yn weithredol gan geisio adborth i ddysgu sut y mae eich ymddygiad a'ch gwerthoedd chi eich hun yn effeithio ar eraill, a defnyddio dull rhagweithiol i ymateb yn briodol i'r adborth hwnnw.

**F8.18** Datblygu a gwerthuso dulliau newydd o gyflawni i wella ansawdd ac effaith y profiad dysgu.

**F8.19** Cymryd atebolrwydd a chyfrifoldeb am gyflawni dysgu a datblygu rhaglenni hyfforddi mewnol.

**F8.20** Creu diwylliant sy'n hyrwyddo meistrolaeth a blaengaredd mewn sgiliau wrth ymarfer, technegol a/neu ar sail ymchwil i gefnogi datblygiad gyrfa eraill, gan ddefnyddio arbenigwyr gyda gwybodaeth ddatblygedig am ddysgu a datblygu i gynllunio, gweithredu a gwerthuso cyfleoedd dysgu cyfredol ac ar gyfer y dyfodol.

## Lefel 9 – Piler Hwyluso Dysgu

### Ffyrdd o feddwl:

**F9.1** Ymwneud yn weithredol mewn dysgu parhaus, gan gynnwys ymgyfarwyddo, cynefino, hyfforddiant gorfodol a chyfleoedd addysgiadol/datblygiadol perthnasol, a chefnogi eraill i wneud hynny.

**F9.2** Wrth arwain eraill i gefnogi dysgwyr cyn cofrestru, sicrhau eich bod yn dangos ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chael dealltwriaeth glir o lefel yr astudiaeth, y deilliannau dysgu penodol a'r disgwyliadau i gryfhau dysgu diogel ac effeithiol.

**F9.3** Ystyried y potensial mewn prosesau dysgu a datblygu sy'n dod i'r amlwg (e.e. dysgu trwy dechnoleg) i hyrwyddo dysgu hygyrch a hyblyg i bawb.

**F9.4** Ystyried ystod o fodelau i gyflawni dysgu wrth ymarfer diogel ac effeithiol (e.e. cymorth cymheiriaid, hyd braich, rhyngbroffesiynol, o bell/rhithwir).

### Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):

**F9.5** Sicrhau bod strategaethau yn eu lle i gefnogi'r holl ddysgwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol eu defnyddio a'u cofnodi a chasglu data i fesur effaith a budd y dysgu i chi a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**F9.6** Bod yn esiampl o ffyrdd o addysgu a dysgu am werth galwedigaethau er iechyd a llesiant.

**F9.7** Dynodi ac ymateb yn briodol i'ch anghenion dysgu eich hun ac eraill trwy gymryd rhan ragweithiol mewn cefnogi cymheiriaid/mentora ac ymarfer ystyriol cyson.

**F9.8** Cefnogi dysgwyr ac addysgwyr ar raglenni lluosog i ystyried yn feirniadol a defnyddio ystod o dechnegau newydd.

**F9.9** Sicrhau bod strategaethau yn eu lle i greu diwylliant lle mae pawb yn cael ei annog i ystyried a dysgu (gan gynnwys o gamgymeriadau), derbyn a rhoi adborth adeiladol, a dysgu gyda'i gilydd ac oddi wrth ei gilydd.

**F9.10** Goruchwylio datblygu a gwerthuso adnoddau addysgol o safon uchel (e.e. i ddysgwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr) a dulliau cyflwyno newydd.

**F9.11** Ysbrydoli, goruchwylio, mentora, cefnogi cymheiriaid ac addysgu eraill (e.e. uwch arweinwyr, neu trwy oruchwylio astudiaethau ôl-ddoethuriaeth, cydweithio ar ymchwil) i gryfhau eich perfformiad ac effeithiolrwydd eich hun ac eraill.

**F9.12** Monitro effeithiolrwydd ac effaith rhwydweithiau rhyngbroffesiynol i gynorthwyo cyfnewid gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau a phrosesau adolygu gan gymheiriaid.

**F9.13** Annog dysgu trwy herio hunan-fodlonrwydd, gweithredoedd a ffyrdd o feddwl nad ydynt er budd y cyhoedd a/neu'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**F9.14** Ymwreiddio a monitro strategaethau i sicrhau argaeledd a'r gallu gorau ar gyfer dysgu wrth ymarfer o'r safon uchaf i'r holl ddysgwyr.

**F9.15** Monitro effeithiolrwydd ac effaith y cyfleoedd i chi eich hun ac eraill weithio ar draws lleoliadau ymarferol ac addysgol (e.e. aelodaeth o fyrddau, cydweithio rhyngwladol).

**F9.16** Cymryd atebolrwydd cyffredinol a chyfrifoldeb am gyflwyno addysgu a dysgu neu raglenni hyfforddi mewn lleoliad neu leoliadau niferus.

**F9.17** Creu diwylliant sy'n hyrwyddo meistrolaeth a blaengaredd mewn sgiliau wrth ymarfer, technegol a/neu ar sail ymchwil i symud y proffesiwn ymlaen, gan ddefnyddio arbenigwyr gyda gwybodaeth ddatblygedig am ddysgu ac addysgu i gynllunio, gweithredu a gwerthuso cyfleoedd dysgu cyfredol ac ar gyfer y dyfodol.

**F9.18** Bod yn esiampl yn weithredol gan geisio adborth i ddysgu sut y mae eich ymddygiad a'ch gwerthoedd chi eich hun yn effeithio ar eraill, ac ymateb yn rhagweithiol yn briodol i'r adborth hwnnw.

# 5.7 Piler Arweinyddiaeth: Lefelau Gyrfa 1–9

## Lefel 1 – Piler Arweinyddiaeth

**Ffyrdd o feddwl:**

**L1.1** Cydnabod a gweithredu pan ddylai eich perfformiad chi eich hun ac eraill gael ei wella neu roi adroddiad amdano (e.e. pan fydd yr ymarfer yn annheg o bosibl, pan fydd natur ymosodol ar raddfa fechan neu ymddygiadau sy'n gwahaniaethu neu'n atgyfnerthu stigma yn cael eu harddangos).

**L1.2** Sylweddoli a gweithredu pan ddylai eich perfformiad neu ymarfer chi eich hun neu eraill gael ei gydnabod a'i ddathlu, i hwyluso diwylliant y gall pobl ragori ynddo.

**L1.3** Hysbysu cydweithwyr a/neu reolwyr am broblemau adnoddau sy'n effeithio ar ddysgu, datblygu a pherfformiad.

**L1.4** Deall yr hinsawdd diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd a'i effaith ar ddarparu'r gwasanaeth.

**L1.5** Cydnabod pwysigrwydd hunan-ymwybyddiaeth, deallusrwydd emosiynol a gwytnwch wrth eiriol drosoch eich hun ac eraill.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**L1.6** Gweithredu fel esiampl i hybu gwerthoedd y proffesiwn.

**L1.7** Rheoli eich patrwm gwaith dyddiol gyda goruchwyliaeth uniongyrchol neu anuniongyrchol.

**L1.8** Eiriol dros anghenion y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**L1.9** Hyrwyddo hawliau a chyfrifoldebau amdanoch eich hun ac eraill, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i broffesiynoldeb, tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac iechyd a lles yn y gweithle.

**L1.10** Ystyried a chynnig ffyrdd gwahanol o wneud y gwaith heb amharu ar ansawdd y gwasanaeth, gan gydnabod a cheisio dylanwadu ar newid diwylliant pan fydd angen.

## Lefel 2 – Piler Arweinyddiaeth

**Ffyrdd o feddwl:**

**L2.1** Cydnabod a gweithredu pan ddylai eich perfformiad chi eich hun ac eraill gael ei wella neu roi adroddiad amdano (e.e. pan fydd yr ymarfer yn annheg o bosibl, pan fydd natur ymosodol ar raddfa fechan neu ymddygiadau sy'n gwahaniaethu neu sy'n atgyfnerthu stigma yn cael eu harddangos).

**L2.2** Sylweddoli a gweithredu pan ddylai eich perfformiad neu ymarfer chi eich hun neu eraill gael ei gydnabod a'i ddathlu, i hwyluso diwylliant y gall pobl ragori ynddo.

**L2.3** Hysbysu cydweithwyr a/neu reolwyr am broblemau adnoddau sy'n effeithio ar ddysgu, datblygu a pherfformiad.

**L2.4** Deall yr hinsawdd diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd yn lleol a'i effaith ar ddarparu'r gwasanaeth.

**L2.5** Cydnabod pwysigrwydd hunan-ymwybyddiaeth, deallusrwydd emosiynol a gwytnwch wrth eiriol drosoch eich hun ac eraill.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**L2.6** Gweithredu fel esiampl i hybu gwerthoedd y proffesiwn.

**L2.7** Rheoli baich gwaith dynodedig, amser ac adnoddau yn effeithiol gyda goruchwyliaeth uniongyrchol neu anuniongyrchol.

**L2.8** Eiriol dros anghenion y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**L2.9** Hyrwyddo hawliau a chyfrifoldebau amdanoch eich hun ac eraill, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i broffesiynoldeb, tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac iechyd a lles yn y gweithle.

**L2.10** Awgrymu ffyrdd gwahanol o wneud y gwaith heb amharu ar ansawdd y gwasanaeth, gan gydnabod a cheisio dylanwadu ar newid diwylliant pan fydd angen.

## Lefel 3 – Piler Arweinyddiaeth

### Ffyrdd o feddwl:

**L3.1** Cydnabod a gweithredu pan ddylai eich perfformiad chi eich hun ac eraill gael ei wella neu roi adroddiad amdano (e.e. pan fydd yr ymarfer yn annheg o bosibl, pan fydd natur ymosodol ar raddfa fechan neu ymddygiadau sy'n gwahaniaethu neu sy'n atgyfnerthu stigma yn cael eu harddangos).

**L3.2** Sylweddoli a gweithredu pan ddylai eich perfformiad neu ymarfer chi eich hun neu eraill gael ei gydnabod a'i ddathlu, i hwyluso diwylliant y gall pobl ragori ynddo.

**L3.3** Hysbysu cydweithwyr a/neu reolwyr am broblemau adnoddau sy'n effeithio ar ddysgu, datblygu a pherfformiad.

**L3.4** Deall pwysigrwydd hunan-ymwybyddiaeth, deallusrwydd emosiynol a gwytnwch a'u cynyddu.

### Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):

**L3.5** Gweithredu fel esiampl i hybu gwerthoedd y proffesiwn.

**L3.6** Rheoli baich gwaith dynodedig, dynodi blaenoriaethau, a rheoli amser ac adnoddau yn effeithiol gydag arweiniad, mewn system gymhleth sy'n newid.

**L3.7** Eiriol dros anghenion y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**L3.8** Hyrwyddo hawliau a chyfrifoldebau amdanoch eich hun ac eraill, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i broffesiynoldeb, tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac iechyd a lles yn y gweithle.

**L3.9** Awgrymu ffyrdd gwahanol o wneud y gwaith heb amharu ar ansawdd y gwasanaeth, gan gydnabod a cheisio dylanwadu ar newid diwylliant pan fydd angen.

**L3.10** Gwirfoddoli ar gyfer cyfleoedd arwain yn y gwasanaeth.

**L3.11** Gweithio trwy'r hinsoddau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd lleol sy'n effeithio ar ddarparu'r gwasanaeth.

## Lefel 4 – Piler Arweinyddiaeth

### Ffyrdd o feddwl:

**L4.1** Cydnabod a gweithredu pan ddylai eich perfformiad chi eich hun ac eraill gael ei wella neu roi adroddiad amdano (e.e. pan fydd yr ymarfer yn annheg o bosibl, pan fydd natur ymosodol ar raddfa fechan neu ymddygiadau sy'n gwahaniaethu neu sy'n atgyfnerthu stigma yn cael eu harddangos).

**L4.2** Sylweddoli a gweithredu pan ddylai eich perfformiad neu ymarfer chi eich hun neu eraill gael ei gydnabod a'i ddathlu, i hwyluso diwylliant y gall pobl ragori ynddo.

**L4.3** Hysbysu cydweithwyr a/neu reolwyr am broblemau adnoddau sy'n effeithio ar ddysgu, datblygu a pherfformiad.

**L4.4** Cynnal chwilfrydedd i ddatblygu ymarfer yn barhaus wrth ymateb i anghenion a heriau'r boblogaeth sy'n newid.

### Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):

**L4.5** Gweithredu fel esiampl i hybu gwerthoedd y proffesiwn.

**L4.6** Rheoli baich gwaith dynodedig, dynodi blaenoriaethau, a rheoli amser ac adnoddau yn effeithiol gydag arweiniad fel sy'n briodol, mewn system gymhleth sy'n newid.

**L4.7** Eiriol dros anghenion y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**L4.8** Hyrwyddo hawliau a chyfrifoldebau amdanoch eich hun ac eraill, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i broffesiynoldeb, tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac iechyd a lles yn y gweithle.

**L4.9** Awgrymu ffyrdd gwahanol o wneud y gwaith heb amharu ar ansawdd y gwasanaeth, gan gydnabod a cheisio dylanwadu ar newid diwylliant pan fydd angen.

**L4.10** Gwirfoddoli ar gyfer cyfleoedd arwain yn y system.

**L4.11** Gweithio trwy'r hinsoddau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio yn lleol ar ddarparu'r gwasanaeth yn awr, gan ragweld problemau yn y dyfodol.

**L4.12** Cymryd peth cyfrifoldeb rheoli/arwain am waith eraill mewn strwythur sydd wedi ei ddiffinio a'i oruchwylio.

**L4.13** Cymryd rhan weithredol mewn cynyddu hunan-ymwybyddiaeth, deallusrwydd emosiynol a gwytnwch, a cheisio a derbyn cyfleoedd i gymryd rhan mewn sgyrsiau dewr wrth eiriol drosoch eich hun ac eraill.

## Lefel 5 – Piler Arweinyddiaeth

**Ffyrdd o feddwl:**

**L5.1** Cydnabod a gweithredu pan ddylai eich perfformiad chi eich hun ac eraill gael ei wella neu roi adroddiad amdano (e.e. pan fydd yr ymarfer yn annheg o bosibl, pan fydd natur ymosodol ar raddfa fechan neu ymddygiadau sy'n gwahaniaethu neu sy'n atgyfnerthu stigma yn cael eu harddangos).

**L5.2** Sylweddoli a gweithredu pan ddylai eich perfformiad neu ymarfer chi eich hun neu eraill gael ei gydnabod a'i ddathlu, i hwyluso diwylliant y gall pobl ragori ynddo.

**L5.3** Hysbysu cydweithwyr a/neu reolwyr am broblemau adnoddau sy'n effeithio ar ddysgu, datblygu a pherfformiad.

**L5.4** Cynnal chwilfrydedd i ddatblygu ymarfer yn barhaus wrth ymateb i anghenion a heriau'r boblogaeth sy'n newid.

**L5.5** Gwybod a deall rolau gwneuthurwyr penderfyniadau strategol o fewn eich sefydliad eich hun a thu hwnt iddo.

**L5.6** Dynodi cysylltiadau rhwng y gwaith yr ydych yn ei wneud a'r polisïau presennol sy'n siapio gwasanaethau.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**L5.7** Rhoi arweinyddiaeth a chefnogi eraill i hyrwyddo'r proffesiwn, ar sail egwyddorion arwain sy'n rhoi'r pwyslais ar yr unigolyn, yn llawn cydymdeimlad ac ar sail gwerthoedd.

**L5.8** Rheoli baich gwaith dynodedig ar eich pen eich hun, dynodi blaenoriaethau, a rheoli amser ac adnoddau yn effeithiol mewn amgylcheddau cymhleth sy'n newid.

**L5.9** Ceisio dylanwadu ac ymateb i'r hinsoddau diwylliannol, cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd, yn lleol a chenedlaethol sy'n effeithio ar gyflawni gwasanaeth a'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**L5.10** Hyrwyddo hawliau a chyfrifoldebau amdanoch eich hun ac eraill, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i broffesiynoldeb, tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac iechyd a lles yn y gweithle.

**L5.11** Cyfrannu at a dylanwadu ar gyflawni gosod amcanion penodol i'ch hun a/neu eraill.

**L5.12** Cymryd cyfrifoldeb am waith eraill mewn strwythur sydd wedi ei ddiffinio a'i oruchwylio.

**L5.13** Adolygu a datblygu gwasanaethau fel rhan o dîm, a gwerthuso effaith a deilliannau newid, gan gydnabod a dylanwadu ar newid mewn diwylliant pan fydd angen.

**L5.14** Defnyddio partneriaethau sy'n bodoli yn effeithiol gydag eraill ar draws terfynau sefydliadol ac asiantaethol.

**L5.15** Defnyddio ystod o arddulliau cyfathrebu a, phan fydd angen, addasu iaith broffesiynol i ddylanwadu, eiriol dros a hyrwyddo therapi galwedigaethol i wahanol gynulleidfaoedd o fewn y proffesiwn a thu hwnt iddo.

**L5.16** Cymryd rhan weithredol mewn cynyddu hunan-ymwybyddiaeth, deallusrwydd emosiynol a gwytnwch, a cheisio a derbyn cyfleoedd i gymryd rhan mewn sgyrsiau dewr wrth eiriol drosoch eich hun ac eraill.

## Lefel 6 – Piler Arweinyddiaeth

**Ffyrdd o feddwl:**

**L6.1** Cydnabod a gweithredu pan ddylai eich perfformiad chi eich hun ac eraill gael ei wella neu roi adroddiad amdano (e.e. pan fydd yr ymarfer yn annheg o bosibl, pan fydd natur ymosodol ar raddfa fechan neu ymddygiadau sy'n gwahaniaethu neu sy'n atgyfnerthu stigma yn cael eu harddangos).

**L6.2** Sylweddoli a gweithredu pan ddylai eich perfformiad neu ymarfer chi eich hun neu eraill gael ei gydnabod a'i ddathlu, i hwyluso diwylliant y gall pobl ragori ynddo.

**L6.3** Hysbysu cydweithwyr a/neu reolwyr am broblemau adnoddau sy'n effeithio ar ddysgu, datblygu a pherfformiad ar hyn o bryd neu a all wneud yn y dyfodol.

**L6.4** Cynnal chwilfrydedd i ddatblygu ymarfer yn barhaus wrth ymateb i anghenion a heriau'r boblogaeth sy'n newid.

**L6.5** Gwybod a deall rôl y gwneuthurwyr penderfyniadau strategol o fewn eich sefydliad eich hun a thu hwnt iddo a ffyrdd o fod yn sail i'ch gwaith.

**L6.6** Gwybod beth yw'r gyrwyr polisi strategol sy'n siapio gwasanaethau a'u defnyddio i fod yn sail i'ch gwaith eich hun.

**L6.7** Bod yn esiampl o bwysigrwydd hunan-ymwybyddiaeth, deallusrwydd emosiynol a gwytnwch, a chymryd rhan mewn sgyrsiau dewr wrth eiriol drosoch eich hun ac eraill.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**L6.8** Rhoi arweinyddiaeth a chefnogi eraill i hyrwyddo'r proffesiwn, ar sail egwyddorion arwain sy'n rhoi'r pwyslais ar yr unigolyn, yn llawn cydymdeimlad ac ar sail gwerthoedd.

**L6.9** Rheoli baich gwaith dynodedig ar eich pen eich hun, dynodi blaenoriaethau, a rheoli amser ac adnoddau'n effeithiol mewn amgylcheddau cymhleth sy'n newid.

**L6.10** Rheoli'r ymateb i'r hinsoddau diwylliannol, cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd, yn lleol a chenedlaethol sy'n effeithio ar gyflawni gwasanaeth a'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, o fewn eich cwmpas dylanwad eich hun.

**L6.11** Hyrwyddo hawliau a chyfrifoldebau amdanoch eich hun ac eraill, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i broffesiynoldeb, tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac iechyd a lles yn y gweithle.

**L6.12** Ffurfio a dylanwadu ar gyflawni gosod amcanion penodol i'ch hun, eraill ac ar lefel gwasanaeth.

**L6.13** Cymryd cyfrifoldeb am waith eraill mewn cwmpas ymarfer diffiniedig, gyda chydweithwyr mwy profiadol yn ôl y gofyn.

**L6.14** Adolygu a datblygu gwasanaethau fel rhan o dîm, a gwerthuso effaith a deilliannau newid, gan gydnabod a dylanwadu ar newid mewn diwylliant pan fydd angen.

**L6.15** Datblygu partneriaethau newydd a gwneud defnydd effeithiol o bartneriaethau sy'n bodoli gydag eraill ar draws terfynau'r sefydliad ac asiantaethol.

**L6.16** Cyfrannu at reoli cyllideb yn effeithiol ar y cyd gydag eraill.

**L6.17** Defnyddio ystod o arddulliau cyfathrebu a, phan fydd angen, addasu iaith broffesiynol i ddylanwadu, eiriol dros a hyrwyddo therapi galwedigaethol i wahanol gynulleidfaoedd o fewn y proffesiwn a thu hwnt iddo.

**L6.18** Cyfrannu at recriwtio staff, dysgwyr a/neu wirfoddolwyr.

## Lefel 7 – Piler Arweinyddiaeth

**Ffyrdd o feddwl:**

**L7.1** Cydnabod a gweithredu pan ddylai eich perfformiad chi eich hun ac eraill gael ei wella neu roi adroddiad amdano (e.e. pan fydd yr ymarfer yn annheg o bosibl, pan fydd natur ymosodol ar raddfa fechan neu ymddygiadau sy'n gwahaniaethu neu sy'n atgyfnerthu stigma yn cael eu harddangos).

**L7.2** Sylweddoli a gweithredu pan ddylai eich perfformiad neu ymarfer chi eich hun neu eraill gael ei gydnabod a'i ddathlu, i hwyluso diwylliant y gall pobl ragori ynddo.

**L7.3** Cydnabod ac ymdrin â phroblemau adnoddau sy'n effeithio ar ddysgu, datblygu a pherfformiad ar hyn o bryd neu a all wneud yn y dyfodol.

**L7.4** Cynnal chwilfrydedd i ddatblygu ymarfer yn barhaus wrth ymateb i anghenion a heriau'r boblogaeth sy'n newid.

**L7.5** Cyfrannu gwybodaeth a deallusrwydd i'r gwneuthurwyr penderfyniadau strategol o fewn eich sefydliad eich hun a thu hwnt iddo i fod yn sail i'w gwaith.

**L7.6** Hyrwyddo yn weithredol i eraill sut y gall gyrwyr polisi gael eu defnyddio i siapio gwasanaethau lleol.

**L7.7** Bod yn esiampl o bwysigrwydd hunan-ymwybyddiaeth, deallusrwydd emosiynol a gwytnwch, a chymryd rhan mewn sgyrsiau dewr wrth eiriol drosoch eich hun ac eraill.

**L7.8** Meddwl yn strategol a deall pwysigrwydd negodi i ddylanwadu ar newid.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**L7.9** Rhoi arweinyddiaeth tîm flaengar a llawn gweledigaeth i hyrwyddo'r proffesiwn, ar sail egwyddorion arwain sy'n rhoi'r pwyslais ar yr unigolyn, ac ar sail gwerthoedd, gan ddylanwadu ar newid diwylliant pan fydd angen.

**L7.10** Rheoli eich baich gwaith eich hun, dynodi blaenoriaethau, a rheoli amser ac adnoddau yn effeithiol mewn systemau cymhleth a chyfnewidiol gan weithredu fel esiampl i eraill yn eich tîm.

**L7.11** Rheoli'r ymateb a dylanwadu ar yr hinsoddau diwylliannol, cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd, yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sy'n effeithio ar gyflawni gwasanaeth a'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, o fewn eich cwmpas dylanwad eich hun.

**L7.12** Hyrwyddo hawliau a chyfrifoldebau amdanoch eich hun ac eraill, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i broffesiynoldeb, tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac iechyd a lles yn y gweithle.

**L7.13** Ffurfio ac arwain ar gyflawni amcanion penodol sy'n gyson â chyfeiriad strategol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, i hwyluso tîm sy'n cyflawni'n wych sy'n canolbwyntio ar anghenion y bobl a'r boblogaeth sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**L7.14** Cymryd cyfrifoldeb am waith eraill mewn cwmpas ymarfer eang.

**L7.15** Gwerthuso effaith a deilliannau newid ar gyflawni gwasanaeth, gan gynnwys profiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**L7.16** Cydweithio yn effeithiol a datblygu partneriaethau gydag eraill o fewn a thros derfynau sefydliadol ac asiantaethol, gan gynnwys grwpiau cymunedol ac elusennau lleol, i hyrwyddo iechyd a llesiant gan ddefnyddio galwedigaeth.

**L7.17** Cyfrannu at reoli cyllideb yn effeithiol ar y cyd gydag eraill.

**L7.18** Addasu iaith broffesiynol a hyrwyddo yn weithredol y defnydd o amrywiaeth o arddulliau cyfathrebu i ddylanwadu, eiriol a hyrwyddo'r proffesiwn i gynulleidfaoedd gwahanol.

**L7.19** Gwerthuso eich ymarfer eich hun i ddangos effaith ymarfer ar lefel uwch yn y tîm.

**L7.20** Creu eich rhwydweithiau eich hun i wella eich galluoedd arweinyddiaeth ar lefel strategol eich hun.

**L7.21** Arwain atebion gwella ansawdd ac ail-ddylunio gwasanaeth, gan ddefnyddio adborth o nifer o safbwyntiau, gan gynnwys gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**L7.22** Galluogi pobl yr ydych yn gweithio gyda nhw o ystod o wahanol gefndiroedd i gymryd cyfrifoldebau arwain er mwyn ehangu cyfleoedd a chynyddu capasiti.

**L7.23** Arwain ar elfennau o recriwtio staff, dysgwyr a gwirfoddolwyr.

**L7.24** Monitro baich gwaith, adolygu'r gymysgedd o sgiliau yn feirniadol a chymryd rhan mewn gweithgareddau cyllido/ comisiynu gwasanaethau (e.e. datblygu dadl fusnes).

**L7.25** Negodi cwmpas ymarfer unigol mewn polisïau cyfreithiol, moesegol, proffesiynol a sefydliadol, llywodraethu a gweithdrefnau, gyda phwyslais ar gyflawni gwasanaethau diogel ac effeithiol.

**L7.26** Ceisio cyfleoedd i arloesi, arbrofi a chymryd risgiau gyda chefnogaeth i sicrhau bod y ddarpariaeth wasanaeth yn ddiogel ac effeithiol ar lefel system.

## Lefel 8 – Piler Arweinyddiaeth

**Ffyrdd o feddwl:**

**L8.1** Cydnabod a gweithredu pan ddylai eich perfformiad chi eich hun ac eraill gael ei wella neu roi adroddiad amdano (e.e. pan fydd yr ymarfer yn annheg o bosibl, pan fydd natur ymosodol ar raddfa fechan neu ymddygiadau sy'n gwahaniaethu neu sy'n atgyfnerthu stigma yn cael eu harddangos).

**L8.2** Sylweddoli a gweithredu pan ddylai eich perfformiad neu ymarfer chi eich hun neu eraill gael ei gydnabod a'i ddathlu, i hwyluso diwylliant y gall pobl ragori ynddo.

**L8.3** Cydnabod a rheoli'n strategol y problemau adnoddau sy'n effeithio ar ddysgu, datblygu a pherfformiad ar hyn o bryd neu a all wneud yn y dyfodol.

**L8.4** Bod yn esiampl o bwysigrwydd hunan-ymwybyddiaeth, deallusrwydd emosiynol a gwytnwch, a chymryd rhan mewn sgyrsiau dewr wrth eiriol drosoch eich hun ac eraill.

**L8.5** Chwilio yn weithredol am ffyrdd i gefnogi cyllidwyr, comisiynwyr ac uwch arweinwyr i lunio penderfyniadau.

**L8.6** Chwilio yn weithredol am wybodaeth a dealltwriaeth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, a chydweithwyr ar draws y system ar bob Lefel Gyrfa i fod yn sail i feddwl strategol a llunio penderfyniadau.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**L8.7** Rhoi arweinyddiaeth strategol flaengar a llawn gweledigaeth i hyrwyddo'r proffesiwn, ar sail egwyddorion arwain sy'n rhoi'r pwyslais ar yr unigolyn, llawn cydymdeimlad ac ar sail gwerthoedd, gan arwain newid diwylliant pan fydd angen.

**L8.8** Rheoli'r cydbwysedd rhwng gofynion arweinyddiaeth weithredol a strategol mewn systemau cymhleth a chyfnewidiol gan weithredu fel esiampl i eraill.

**L8.9** Rheoli'r ymateb a dylanwadu ar yr hinsoddau diwylliannol, cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd, yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sy'n effeithio ar gyflawni gwasanaeth a'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**L8.10** Hyrwyddo hawliau a chyfrifoldebau amdanoch eich hun ac eraill, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i broffesiynoldeb, tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac iechyd a lles yn y gweithle.

**L8.11** Ffurfio ac arwain ar gyflawni amcanion ar lefel gwasanaeth sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol a chael yr undod mwyaf posibl rhwng amcanion personol, tîm a sefydliadol, i hwyluso timau sy'n cyflawni ar lefel uchel ar draws y system.

**L8.12** Cymryd cyfrifoldeb strategol am waith eraill mewn un neu fwy o wasanaethau/lleoliadau.

**L8.13** Gwerthuso effaith a deilliannau newid ar gyflawni gwasanaeth a phrofiadau'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**L8.14** Adeiladu a chynnal cynghreiriau strategol cynaliadwy ar draws terfynau sefydliadol ac asiantaethol, gan gynnwys grwpiau cymunedol a chymdeithasau cleifion, i hyrwyddo iechyd a llesiant trwy alwedigaeth.

**L8.15** Cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am reoli cyllideb yn effeithiol.

**L8.16** Gofalu bod llais y proffesiwn yn cael ei gynrychioli ar lefel strategol.

**L8.17** Gwerthuso eich ymarfer eich hun a rhannu'r deilliant gydag eraill, i ddangos effaith ymarfer ar lefel uwch yn y system.

**L8.18** Creu eich rhwydweithiau i wella eich galluoedd arweinyddiaeth ar lefel staff gweithredol eich hun.

**L8.19** Dylanwadu yn strategol ar ddatblygiad parhaus system integredig, ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl a'r poblogaethau y mae'n eu gwasanaethu.

**L8.20** Galluogi pobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd i gymryd cyfrifoldebau arwain er mwyn ehangu cyfleoedd a chynyddu capasiti.

**L8.21** Cynnal trosolwg strategol ar recriwtio staff/dysgwyr/gwirfoddolwyr, gan gydnabod y gwerth y mae pobl o gefndiroedd amrywiol yn eu dwyn i rolau arwain uwch.

**L8.22** Monitro baich gwaith, adolygu'r gymysgedd o sgiliau yn feirniadol a chynllunio olyniaeth, a llunio dadleuon busnes pan fydd angen.

**L8.23** Negodi cwmpas ymarfer unigol mewn polisïau cyfreithiol, moesegol, proffesiynol a sefydliadol, llywodraethu a gweithdrefnau, gyda phwyslais ar gyflawni gwasanaethau diogel ac effeithiol.

**L8.24** Creu cyfleoedd i arloesi, arbrofi a chymryd risgiau gyda chefnogaeth i sicrhau bod y ddarpariaeth wasanaeth yn ddiogel ac effeithiol ar lefel system.

**L8.25** Hwyluso diwylliant sy'n darparu gwasanaethau o safon uchel, cost effeithiol, wedi eu lliflinio gyda'r gallu i weithio ar draws gwasanaethau traddodiadol a therfynau proffesiynol.

**L8.26** Bod yn esiampl o bresenoldeb cryf, gweladwy i ffurfio perthnasau agored, llawn ymddiriedaeth a chydweithredol o fewn terfynau sefydliadol a thu hwnt iddynt.

**L8.27** Llunio a chynnal rhwydweithiau o arweinwyr a all weithio gyda'i gilydd ar draws y system er budd y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**L8.28** Rhagweld effaith elfennau ehangach sy'n pennu iechyd a chymryd rhan mewn cynllunio strategol i liniaru tueddiadau negyddol.

**L8.29** Gweithredu fel arweinydd cenedlaethol, creu cyfleoedd i gynrychioli'r proffesiwn/sefydliad a sicrhau bod y proffesiwn/sefydliad yn gwybod am newidiadau lleol a chenedlaethol i systemau iechyd a gofal.

## Lefel 9 – Piler Arweinyddiaeth

**Ffyrdd o feddwl:**

**L9.1** Cydnabod a gweithredu pan ddylai eich perfformiad chi eich hun ac eraill gael ei wella neu roi adroddiad amdano (e.e. pan fydd yr ymarfer yn annheg o bosibl, pan fydd natur ymosodol ar raddfa fechan neu ymddygiadau sy'n gwahaniaethu neu sy'n atgyfnerthu stigma yn cael eu harddangos).

**L9.2** Cydnabod a gweithredu pan ddylai eich perfformiad neu ymarfer chi eich hun neu eraill gael ei gydnabod a'i ddathlu, i hwyluso diwylliant y gall pobl ragori ynddo.

**L9.3** Cydnabod a rheoli'n strategol problemau adnoddau sy'n effeithio ar ddysgu, datblygu a pherfformiad ar hyn o bryd neu a all wneud yn y dyfodol.

**L9.4** Bod yn esiampl o bwysigrwydd hunan-ymwybyddiaeth, deallusrwydd emosiynol, gwytnwch, a chymryd rhan mewn sgyrsiau dewr wrth eiriol dros y proffesiwn ar draws y system.

**L9.5** Chwilio yn weithredol am wybodaeth a dealltwriaeth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, a chydweithwyr ar draws y system ar bob Lefel Gyrfa i fod yn sail i feddwl strategol a llunio penderfyniadau.

**L9.6** Gweithio'n weithredol gydag eraill i ddefnyddio gyrwyr polisi i siapio gwasanaethau ar draws y system.

**L9.7** Cynnal chwilfrydedd i ddatblygu ymarfer yn barhaus wrth ymateb i anghenion a heriau'r boblogaeth sy'n newid.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**L9.8** Rhoi arweinyddiaeth strategol i hyrwyddo a thyfu'r proffesiwn, ar sail egwyddorion arwain sy'n rhoi'r pwyslais ar yr unigolyn, llawn cydymdeimlad ac ar sail gwerthoedd, gan yrru newid diwylliant pan fydd angen.

**L9.9** Rheoli eich cyfrifoldebau arwain strategol eich hun mewn systemau cymhleth a chyfnewidiol gan weithredu fel esiampl i eraill.

**L9.10** Arwain yr ymateb a dylanwadu ar yr hinsoddau diwylliannol, cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd, yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sy'n effeithio ar gyflawni gwasanaeth a'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**L9.11** Cymryd atebolrwydd am hyrwyddo hawliau a chyfrifoldebau yn weithredol amdanoch eich hun ac eraill, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i broffesiynoldeb, tegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac iechyd a lles yn y gweithle.

**L9.12** Gosod y weledigaeth strategol ar gyfer y sefydliad(au) a gweithio gydag eraill i weithredu'r weledigaeth strategol a sicrhau ei bod yn cael ei hadlewyrchu yng ngwaith y sefydliad(au).

**L9.13** Cymryd atebolrwydd am lywodraethu, cynllunio gweithredol a gweithlu, a datblygu systemau cyfathrebu sefydliadol effeithiol.

**L9.14** Gweithredu pan ddylai eich perfformiad neu ymarfer chi eich hun neu eraill gael ei gydnabod, ei ddathlu, ei gofnodi neu ei wella, i hwyluso diwylliant y gall pobl ragori ynddo.

**L9.15** Gwerthuso a sicrhau effaith a deilliant gorau i newid ar lefel systemau.

**L9.16** Bod yn esiampl o bresenoldeb cryf, gweladwy i ffurfio perthnasau agored, llawn ymddiriedaeth a chydweithredol o fewn terfynau sefydliadol a thu hwnt iddynt.

**L9.17** Bod yn atebol am gysoni cyllideb a chynllunio strategol yn y sefydliad.

**L9.18** Sicrhau bod llais y proffesiwn yn cael ei gynrychioli ar y lefel strategol uchaf.

**L9.19** Llunio a chynnal rhwydweithiau o arweinwyr a all weithio gyda'i gilydd ar draws y system er budd y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

**L9.20** Rhoi arweiniad strategol o ran prosiectau gwella ansawdd a datblygu gwasanaeth, yn unol â thystiolaeth newydd a/neu fwriad strategol.

**L9.21** Cynnal trosolwg strategol ar recriwtio staff/dysgwyr/gwirfoddolwyr, gan gydnabod y gwerth y mae pobl o gefndiroedd amrywiol yn eu dwyn i swyddi arwain uwch.

**L9.22** Darparu goruchwyliaeth strategol i ddatblygu a chynnal darpariaeth o safon uchel, cost effeithiol, wedi eu lliflinio gyda'r gallu i weithio ar draws terfynau traddodiadol gwasanaethau a phroffesiynol.

**L9.23** Creu a hyrwyddo cyfleoedd i arloesi, arbrofi a chymryd risgiau gyda chefnogaeth i sicrhau bod y ddarpariaeth wasanaeth yn ddiogel ac effeithiol ar draws y system.

**L9.24** Rhagweld effaith elfennau ehangach sy'n pennu iechyd a chymryd rhan mewn cynllunio strategol i liniaru tueddiadau negyddol.

**L9.25** Creu rhwydweithiau i wella eich galluoedd arweinyddiaeth ar lefel staff gweithredol eich hun.

# 5.8 Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu: Lefelau Gyrfa 1–9

## Lefel 1 – Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu

**Ffyrdd o feddwl:**

**E1.1** Gwybod pwysigrwydd tystiolaeth ac ymchwil i gyflawni gwasanaethau diogel ac effeithiol.

**E1.2** Amau eich ymarfer eich hun ac eraill yn adeiladol i ddynodi cyfleoedd i greu gwybodaeth newydd.

**E1.3** Deall pwysigrwydd a chydymffurfio â phrosesau llywodraethu ymchwil, gan gynnwys moeseg, diogelu data a chyfrinachedd.

**E1.4** Deall y blaenoriaethau ymchwil ar gyfer y proffesiwn a sut y maent yn cysylltu â chyd-destun eich gwaith eich hun (e.e. mewn maes arbenigol).

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**E1.5** Darllen deunyddiau o fathau gwahanol, crynhoi'r negeseuon allweddol a thrafod y canfyddiadau yng nghyswllt eich gwaith eich hun.

**E1.6** Llenwi ffurflenni safonol.

**E1.7** Cadw cofnodion cywir.

**E1.8** Ymgymryd ag elfennau wedi eu dirprwyo o ymchwil a phrosesau cysylltiedig gydag arweiniad.

**E1.9** Cymryd rhan mewn prosiectau archwilio a gwella ansawdd wedi eu dylunio yn barod.

## Lefel 2 – Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu

**Ffyrdd o feddwl:**

**E2.1** Gwybod pwysigrwydd tystiolaeth ac ymchwil i gyflawni gwasanaethau diogel ac effeithiol.

**E2.2** Amau eich ymarfer chi ac eraill yn adeiladol i greu cyfleoedd i greu gwybodaeth newydd.

**E2.3** Deall a chydymffurfio â phrosesau llywodraethu ymchwil, gan gynnwys moeseg, diogelu data a chyfrinachedd, gydag arweiniad.

**E2.4** Deall y blaenoriaethau ymchwil ar gyfer y proffesiwn yng nghyd-destun eich gwaith eich hun (e.e. mewn maes arbenigol).

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**E2.5** Darllen deunyddiau o fathau gwahanol, crynhoi'r negeseuon allweddol a thrafod y canfyddiadau.

**E2.6** Llenwi ffurflenni safonol.

**E2.7** Cadw cofnodion cywir.

**E2.8** Ymgymryd â phrosesau ymchwil a gwerthuso gwasanaeth a chymryd rhan mewn archwiliadau a chynlluniau gwella ansawdd wedi eu dylunio ymlaen llaw, gydag arweiniad.

**E2.9** Dilyn protocolau gosodedig, wedi eu dylunio ymlaen llaw.

**E2.10** Trafod canfyddiadau o ymchwil a'ch barn eich hun amdanynt (e.e. fel rhan o glwb cylchgrawn).

**E2.11** Cofrestru i dderbyn rhybuddion yn gysylltiedig ag ymchwil a hysbysiadau (e.e. gan sefydliadau proffesiynol)

## Lefel 3 – Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu

**Ffyrdd o feddwl:**

**E3.1** Gwybod pwysigrwydd tystiolaeth ac ymchwil wrth gyflawni gwasanaethau diogel ac effeithiol.

**E3.2** Amau eich ymarfer chi ac eraill yn adeiladol i greu cyfleoedd i greu gwybodaeth newydd.

**E3.3** Deall a chydymffurfio â phrosesau llywodraethu ymchwil, gan gynnwys moeseg, diogelu data a chyfrinachedd, gydag arweiniad.

**E3.4** Deall y blaenoriaethau ymchwil ar gyfer y proffesiwn yng nghyd-destun eich gwaith eich hun (e.e. mewn maes arbenigol).

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**E3.5** Darllen deunyddiau o fathau gwahanol, crynhoi, ac amau'r canfyddiadau allweddol.

**E3.6** Cofnodi data ymchwil/gwerthuso gwasanaeth arferol gydag arweiniad.

**E3.7** Dilyn protocolau gosodedig, wedi eu dylunio ymlaen llaw.

**E3.8** Ymgymryd ag archwilio wedi ei ddylunio ymlaen llaw a/neu gyfrannu at gynlluniau gwella ansawdd, gydag arweiniad.

**E3.9** Cefnogi recriwitio rhai i gymryd rhan mewn ymchwil a/neu bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr fel cyd-ymchwilwyr.

**E3.10** Sefydlu a/neu gymryd rhan weithredol mewn clwb cylchgrawn.

**E3.11** Cofrestru i dderbyn rhybuddion misol gan gylchgronau (e.e. *British Journal of Occupational Therapy*) a hysbysiadau eraill yn ymwneud ag ymchwil.

**E3.12** Gweithredu canllawiau ymarfer ar sail tystiolaeth.

## Lefel 4 – Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu

**Ffyrdd o feddwl:**

**E4.1** Gwybod pwysigrwydd tystiolaeth ac ymchwil wrth gyflawni gwasanaethau diogel ac effeithiol.

**E4.2** Amau eich ymarfer chi ac eraill yn adeiladol i greu cyfleoedd i greu gwybodaeth newydd.

**E4.3** Deall a chydymffurfio â phrosesau llywodraethu ymchwil, gan gynnwys moeseg, diogelu data a chyfrinachedd, gyda chefnogaeth os bydd angen.

**E4.4** Deall y blaenoriaethau ymchwil ar gyfer y proffesiwn yng nghyd-destun eich gwaith eich hun (e.e. mewn maes arbenigol).

**E4.5** Blaenoriaethu anghenion y boblogaeth leol wrth feddwl am weithgareddau ymchwil yn y dyfodol a/neu brosiectau gwella ansawdd.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**E4.6** Cynnal chwiliadau gwybodaeth systematig, dethol gwybodaeth berthnasol a chrynhoi'r canfyddiadau yn feirniadol.

**E4.7** Ymgymryd mewn/sefydlu gweithgareddau archwilio a chyfrannu at brosiectau gwella ansawdd gydag ychydig iawn o arweiniad.

**E4.8** Cofnodi data ymchwil/gwerthuso gwasanaeth arferol a chynnal dadansoddiad sylfaenol, gydag arweiniad.

**E4.9** Cefnogi cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn y broses ymchwil (e.e. cyd-ddylunio prosiectau gwella ansawdd ac ymchwil).

**E4.10** Ymgymryd â recriwtio rhai i gymryd rhan a chytuno i weithgareddau fel rhan o dîm.

**E4.11** Creu dulliau o rannu canfyddiadau cyfoes (e.e. hysbysfyrddau ymchwil, blogiau, posteri, cyflwyniadau) gyda chyfarwyddyd yn sail i'r cynnwys.

**E4.12** Ymateb i gyfleoedd i ddatblygu canllawiau ymarfer (e.e. yn RCOT).

**E4.13** Defnyddio tystiolaeth fel sail i ymarfer, gydag arweiniad.

## Lefel 5 – Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu

**Ffyrdd o feddwl:**

**E5.1** Amau eich ymarfer chi ac eraill yn adeiladol i greu cyfleoedd i greu gwybodaeth newydd.

**E5.2** Deall a chydymffurfio â phrosesau llywodraethu ymchwil, gan gynnwys moeseg, diogelu data a chyfrinachedd.

**E5.3** Blaenoriaethu anghenion y boblogaeth leol wrth feddwl am weithgareddau ymchwil yn y dyfodol a/neu brosiectau gwella ansawdd.

**E5.4** Deall y weledigaeth strategol ar gyfer ymchwil yn y proffesiwn a'r lleoliad gwaith.

**E5.5** Ymgorffori gyrwyr polisi lleol a chenedlaethol wrth feddwl am weithgareddau ymchwil.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**E5.6** Cynnal chwiliadau gwybodaeth systematig, dethol gwybodaeth berthnasol a darllen, arfarnu a chyd-osod gwybodaeth newydd.

**E5.7** Recriwtio rhai i gymryd rhan mewn ymchwil, ymgymryd â dadansoddiad sylfaenol o ddata ymchwil/gwerthuso gwasanaeth a chofnodi data ymchwil/gwerthuso gwasanaeth arferol gydag arweiniad.

**E5.8** Sefydlu prosiectau ymchwil, archwilio neu wella ansawdd ar raddfa fechan.

**E5.9** Dynodi bylchau mewn tystiolaeth a chyfrannu at ffurfio cwestiynau beirniadol sy'n cyfiawnhau archwilio neu ymchwil pellach, gan gynnwys cwestiynau ymchwil y gellir eu harchwilio gan ddysgwyr therapi galwedigaethol cyn cofrestru mewn prifysgolion lleol.

**E5.10** Hwyluso cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr a/neu ddysgwyr i gyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu agweddau o ymchwil a/neu wella ansawdd.

**E5.11** Cyflwyno crynodebau ar gyfer cynadleddau sy'n cael eu hadolygu gan gymheiriaid.

**E5.12** Cyfrannu at geisiadau grant bach a dyfarniadau datblygu gyda chyfarwyddyd, i hwyluso gweithgaredd ymchwil.

**E5.13** Cyfrannu at ddatblygu canllawiau ymarfer.

**E5.14** Gweithredu fel hyrwyddwr ymchwil lleol.

## Lefel 6 – Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu

**Ffyrdd o feddwl:**

**E6.1** Amau eich ymarfer chi ac eraill yn adeiladol i greu cyfleoedd i greu gwybodaeth newydd.

**E6.2** Deall a chydymffurfio â phrosesau llywodraethu ymchwil, gan gynnwys moeseg, diogelu data a chyfrinachedd a chefnogi eraill i wneud hynny.

**E6.3** Blaenoriaethu anghenion y boblogaeth leol wrth feddwl am weithgareddau ymchwil yn y dyfodol a/neu brosiectau gwella ansawdd.

**E6.4** Deall y weledigaeth strategol ar gyfer ymchwil yn y proffesiwn a'r lleoliad gwaith, pan fydd yn berthnasol.

**E6.5** Ymgorffori gyrwyr polisi lleol a chenedlaethol wrth feddwl am weithgareddau ymchwil yn y dyfodol.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**E6.6** Arfarnu yn feirniadol, trosi a defnyddio tystiolaeth gyhoeddedig fel sail i ymarfer.

**E6.7** Cydlynu a chyfuno canfyddiadau o brosiectau ymchwil, archwilio neu wella ansawdd ar raddfa fechan.

**E6.8** Dynodi bylchau mewn tystiolaeth a chyfrannu at ffurfio cwestiynau beirniadol sy'n cyfiawnhau archwilio neu ymchwil pellach, gan gynnwys cwestiynau ymchwil y gellir eu harchwilio gan ddysgwyr therapi galwedigaethol cyn ac ar ôl cofrestru (e.e. mewn prifysgolion lleol).

**E6.9** Hwyluso cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn ogystal â staff a/neu ddysgwyr i gyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu agweddau o ymchwil a/neu wella ansawdd.

**E6.10** Rhannu canfyddiadau gweithgareddau ymchwil i alluogi'r mynediad ehangaf at dystiolaeth newydd a blaengaredd, gan gynnwys trwy gyhoeddiadau o safon uchel, proffesiynol a sesiynau ymgysylltu cyhoeddus a thrwy gyfryngau priodol.

**E6.11** Ymgeisio am gyfleoedd cymrodoriaeth ymchwil a chyllid sy'n cael ei adolygu gan gymheiriaid (e.e. trwy Ddyfarniadau Blynyddol RCOT a'r Sefydliad Ymchwil).

**E6.12** Cyfrannu at ddatblygu ceisiadau grant mawr.

**E6.13** Cyfrannu at ddatblygu canllawiau a pholisïau ar lefel leol, ranbarthol a/neu genedlaethol.

**E6.14** Gweithredu fel hyrwyddwr ymchwil lleol.

**E6.15** Rhannu a chyhoeddi canfyddiadau ymchwil.

**E6.16** Cyfrannu at oruchwylio cynorthwywyr ymchwil, dysgwyr cyn cofrestru a meistr ôl-raddedig, gan ddynodi a chysylltu gyda threialon/astudiaethau lleol (heb fod yn benodol i therapi galwedigaethol o angenrheidrwydd).

**E6.17** Cyfrannu at brosesau adolygu cymheiriaid (e.e. fel adolygydd crynodebau cylchgronau/ cynadleddau, trwy ymuno â phwyllgor rhaglen wyddonol).

## Lefel 7 – Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu

**Ffyrdd o feddwl:**

**E7.1** Deall, gweithredu a chydymffurfio â llywodraethu ymchwil, gan gynnwys moeseg, diogelu data a chyfrinachedd a chefnogi eraill i wneud hynny.

**E7.2** Amau eich ymarfer chi ac eraill yn adeiladol i greu cyfleoedd i greu gwybodaeth newydd.

**E7.3** Cynnal ymwybyddiaeth o brosesau cenedlaethol ar gyfer llywodraethu ymchwil, a'u heffaith ar bolisïau a gweithdrefnau lleol.

**E7.4** Cefnogi'r weledigaeth strategol i greu diwylliant sy'n gwerthfawrogi a galluogi pobl i ymgysylltu ag ymchwil a chynlluniau gwella ansawdd ar lefel sy'n addas iddyn nhw.

**E7.5** Ymgorffori gyrwyr polisi lleol a chenedlaethol wrth feddwl am weithgareddau ymchwil yn y dyfodol.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**E7.6** Ymwneud yn feirniadol â gweithgaredd ymchwil, gan ddefnyddio dulliau dilys a dibynadwy, a chefnogi eraill i wneud hynny (e.e. chwilio gwybodaeth systematig, recriwtio rhai i gymryd rhan mewn ymchwil, casglu a dadansoddi setiau data).

**E7.7** Dynodi bylchau mewn tystiolaeth, gan gynnwys tueddiadau a newidiadau yn iechyd, lles ac anghenion poblogaeth, a ffurfio cwestiynau beirniadol sy'n cyfiawnhau rhagor o ymchwil neu archwilio, gan gynnig ffyrdd ymarferol o ymdrin â nhw.

**E7.8** Hwyluso cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr, staff a/neu ddysgwyr i gyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu agweddau o ymchwil a/neu wella ansawdd.

**E7.9** Arwain prosiectau ymchwil, gwella ansawdd neu werthuso gwasanaeth ar lefel lleol, rhanbarthol a/neu genedlaethol.

**E7.10** Rhannu canfyddiadau ymchwil i alluogi'r mynediad ehangaf at dystiolaeth ymchwil newydd a blaengaredd, gan gynnwys trwy gyhoeddiadau o safon uchel, proffesiynol a sesiynau ymgysylltu cyhoeddus a thrwy gyfryngau priodol.

**E7.11** Arwain cynigion ariannu, ymgeisio am gymrodoriaethau a/neu gyfrannu at gynigion mwy gyda chydweithwyr mwy profiadol.

**E7.12** Llunio partneriaethau rhwng ymarfer a phrifysgolion lleol a/neu sefydliadau allanol, gan gynnwys diwydiant a phroffesiynau tu allan i iechyd a gofal.

**E7.13** Cyfrannu at ddatblygu a gwerthuso canllawiau a pholisïau yn lleol, rhanbarthol a/neu genedlaethol.

**E7.14** Gweithredu fel hyrwyddwr ymchwil lleol/rhanbarthol.

**E7.15** Cyfrannu at brosesau adolygu cymheiriaid (e.e. fel adolygydd crynodebau cylchgronau/ cynadleddau, trwy ymuno â phwyllgor rhaglen wyddonol).

**E7.16** Goruchwylio cynorthwywyr ymchwil neu ddysgwyr cyn cofrestru a meistr a doethuriaeth ar ôl cofrestru.

## Lefel 8 – Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu

**Ffyrdd o feddwl:**

**E8.1** Amau eich ymarfer a'ch ffordd o feddwl chi ac eraill yn feirniadol i greu cyfleoedd i greu gwybodaeth newydd trwy ymchwil gwreiddiol neu ysgolheictod blaengar arall.

**E8.2** Sicrhau bod cadw at bolisïau a llywodraethu ymchwil priodol.

**E8.3** Arwain y weledigaeth strategol i greu diwylliant sy'n gwerthfawrogi a galluogi pobl i ymgysylltu ag ymchwil a chynlluniau gwella ansawdd ar lefel sy'n addas iddyn nhw.

**E8.4** Cynnal ymwybyddiaeth o brosesau cenedlaethol ar gyfer llywodraethu ymchwil, a'u heffaith ar bolisïau a gweithdrefnau lleol.

**E8.5** Ymgorffori gyrwyr polisi lleol a chenedlaethol a byd-eang wrth feddwl am weithgareddau ymchwil yn y dyfodol.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**E8.6** Bod yn esiampl o ymgorffori ymchwil a dysgu i fod yn sail i ymarfer a chefnogi eraill i wneud hynny, gan gynnwys dynodi bylchau yn y dystiolaeth a chrynhoi gwybodaeth o ffynonellau lluosog.

**E8.7** Dynodi tueddiadau a newidiadau yn iechyd, lles ac anghenion poblogaeth, gan gynnwys ar lefel genedlaethol, i ffurfio cwestiynau beirniadol sy'n cyfiawnhau rhagor o ymchwil, archwilio neu werthuso gwasanaeth.

**E8.8** Sicrhau bod prosesau strategol yn eu lle i hwyluso cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr, staff a/neu ddysgwyr i gyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu agweddau o ymchwil a/neu wella ansawdd.

**E8.9** Arwain ar weithgareddau rhannu canfyddiadau i alluogi'r mynediad ehangaf at dystiolaeth ymchwil newydd a blaengaredd, gan gynnwys trwy gyhoeddiadau o safon uchel, proffesiynol a sesiynau ymgysylltu cyhoeddus a thrwy gyfryngau priodol.

**E8.10** Cyfrannu at ac/neu arwain ar gynigion allanol sylweddol am gyllid cystadleuol.

**E8.11** Cyfrannu at ddatblygu a gwerthuso canllawiau a pholisïau ar lefel genedlaethol a/neu ryngwladol.

**E8.12** Cyfrannu at brosesau adolygu cymheiriaid (e.e. fel adolygydd crynodebau cylchgronau/cynadleddau, trwy ymuno â phwyllgor rhaglen wyddonol).

**E8.13** Adeiladu rhwydweithiau ar draws sectorau i ffurfio cynlluniau ymchwil cydweithredol.

**E8.14** Arwain rhaglenni ymchwil.

**E8.15** Cynnal proffil ymchwil cenedlaethol.

**E8.16** Datblygu rhwydweithiau ymchwil rhyngwladol.

**E8.17** Goruchwylio cynorthwywyr ymchwil a dysgwyr cyn cofrestru, meistr, doethuriaeth ac ôl-ddoethuriaeth ar ôl cofrestru.

**E8.18** Creu diwylliant sy'n gwerthfawrogi a chefnogi pobl i ymwneud ag ymchwil a gwella gwasanaethau (e.e. cychwyn a/neu drefnu rhaglenni ymchwil, rhanbarthol a/neu ryngwladol).

## Lefel 9 – Piler Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu

**Ffyrdd o feddwl:**

**E9.1** Amau eich ymarfer chi ac eraill yn adeiladol i greu cyfleoedd i greu gwybodaeth newydd trwy ymchwil gwreiddiol neu ysgolheictod blaengar arall.

**E9.2** Ar lefel strategol, sicrhau bod polisïau llywodraethu ymchwil priodol yn cael eu dilyn a chyfrannu'n weithredol atynt a sicrhau eu bod yn parhau yn gyfredol.

**E9.3** Gofalu bod y weledigaeth strategol ar gyfer ymchwil yn cael ei hymwreiddio mewn ymarfer i alluogi'r holl staff ar bob Lefel Gyrfa i ymwneud â gweithgareddau ymchwil.

**E9.4** Ymgorffori gyrwyr polisi lleol a chenedlaethol a byd-eang wrth feddwl am weithgareddau ymchwil yn y dyfodol.

**Sgiliau (ymarfer, technegol neu gysylltiedig ag ymchwil):**

**E9.5** Bod yn esiampl o ymgorffori ymchwil a dysgu i fod yn sail i ymarfer a chefnogi eraill i wneud hynny, gan gynnwys dynodi bylchau yn y dystiolaeth a chrynhoi gwybodaeth o ffynonellau lluosog.

**E9.6** Dynodi tueddiadau a newidiadau cyfredol ac yn y dyfodol yn iechyd, lles ac anghenion poblogaeth, gan gynnwys ar lefel fyd-eang, i ffurfio cwestiynau beirniadol sy'n cyfiawnhau rhagor o ymchwil, archwilio neu werthuso gwasanaeth.

**E9.7** Sicrhau datblygiad prosesau strategol, eu gweithredu a'u hadolygu i hwyluso cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau therapi galwedigaethol, eu teuluoedd a'u gofalwyr, staff a/neu ddysgwyr i gyd-ddylunio a chyd-gynhyrchu agweddau o ymchwil a/neu wella ansawdd.

**E9.8** Arwain ar weithgareddau rhannu canfyddiadau i alluogi'r mynediad ehangaf at dystiolaeth ymchwil newydd a blaengaredd, gan gynnwys trwy gyhoeddiadau o safon uchel, proffesiynol a sesiynau ymgysylltu cyhoeddus a thrwy gyfryngau priodol.

**E9.9** Arwain ar gynigion ymchwil allanol sylweddol ar gyfer cyllid cystadleuol, gan gynnwys, er enghraifft, treialon aml-ganolfan, a goruchwylio cyfraniadau eraill.

**E9.10** Cyfrannu at brosesau adolygu cymheiriaid (e.e. fel golygydd cylchgrawn neu adolygydd crynodebau cynadleddau, trwy ymuno â phwyllgor rhaglen wyddonol).

**E9.11** Datblygu dulliau strategol i ddylanwadu ar ganllawiau cenedlaethol a rhyngwladol ac agendau ymchwil ar sail y dystiolaeth/ymchwil gorau.

**E9.12** Goruchwylio cynorthwywyr ymchwil, prosiectau doethuriaeth ac ôl-ddoethuriaeth.

**E9.13** Cynnal proffil ymchwil rhyngwladol.

# Adran 6
# Termau allweddol

Mae RCOT wedi dethol neu ddatblygu'r diffiniadau ac esboniadau hyn i'ch helpu i ddeall y ddogfen hon.

| | |
|---|---|
| **Arbenigol** | Yn cyfeirio at gwmpas ymarfer yn hytrach na lefel ymarfer. Gall unigolyn weithio fel arbenigwr mewn maes diffiniedig ar unrhyw Lefel Gyrfa (e.e. fel technegydd arbenigol mewn gwasanaeth cadair olwyn). |
| **Amgylchedd** | Yr amgylchiadau, gwrthrychau neu gyflyrau sy'n llunio'r hyn sydd o gwmpas unigolyn, y mae'n byw ynddo ac y mae'n eu profi. |
| **Amrywiaeth** | 'Y ffaith bod llawer o wahanol fathau o bethau neu bobl yn cael eu cynnwys yn rhywbeth; amrywiaeth o wahanol bethau neu bobl.' (Gwasg Prifysgol Caergrawnt 2020)<br>'Mae'r cysyniad o amrywiaeth yn cwmpasu derbyn a pharchu. Mae'n golygu deall bod pob unigolyn yn unigryw a chydnabod ein gwahaniaethau unigol. Gall y rhain fod ar sail hil, ethnigrwydd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws cymdeithasol-economaidd, oedran, gallu corfforol, credoau crefyddol, credoau gwleidyddol, neu syniadaeth arall.' (Coleg Cymunedol Queensborough 2018) |
| **Cwmpas ymarfer** | Dyma'r maes neu feysydd o'ch proffesiwn yr ydych wedi dewis ymarfer ynddynt, gyda'r wybodaeth, sgiliau a'r profiad i ymarfer yn gyfreithlon, yn ddiogel ac effeithiol. (Addaswyd o HCPC 2013, t4)<br>Gall hyn fod yn gwmpas ymarfer arbenigol (e.e. pediatreg, yn gysylltiedig ag arbenigedd meddygol, neu gall fod yn lleoliad fel gofal cymdeithasol). Mae'n wahanol i Lefel Gyrfa. |
| **Cydraddoldeb** | 'Mae cydraddoldeb yn ymwneud â sicrhau bod pob unigolyn yn cael cyfle cyfartal i wneud y mwyaf o'i fywyd a'i dalentau.<br>'Mae hefyd yn ymwneud â'r gred na ddylai unrhyw un gael gobeithion gwaelach mewn bywyd oherwydd y ffordd y'i ganed, o ble y mae'n dod, yr hyn y mae'n ei gredu, neu os oes ganddo anabledd.<br>'Mae cydraddoldeb yn cydnabod bod grwpiau penodol o bobl yn hanesyddol sydd â nodweddion a ddiogelir fel hil, anabledd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol wedi profi gwahaniaethu.' (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018) |
| **Cymhwysedd** | 'Cymhwysedd yw caffael gwybodaeth, sgiliau a galluoedd ar lefel o arbenigedd sy'n ddigonol i allu cyflawni mewn lleoliad gwaith priodol'. (Harvey 2020) |

| | |
|---|---|
| **Cynhwysiant** | Mae cynhwysiant yn hawl dynol cyffredinol. Nod cynhwysiant yw derbyn a gwerthfawrogi amrywiaeth pawb yn gyfartal, ar draws pob agwedd o fywyd. Mae'n ymwneud â rhoi mynediad a chyfleoedd cyfartal, gan gael gwared ar rwystrau. Mae hefyd yn ymwneud â dangos parch, a chael gwared ar wahaniaethu a diffyg goddefgarwch. |
| **Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD)** | Y ffordd y mae unigolyn yn parhau i ddysgu a datblygu trwy gydol ei yrfa, gan gynnwys yn ystod ei raglen cyn cofrestru. Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn hanfodol ac yn datblygu sgiliau, gwybodaeth, hunaniaeth broffesiynol ac ymddygiad proffesiynol fel bod unigolion yn cael gwybod y wybodaeth ddiweddaraf ac yn ymarfer yn ddiogel ac effeithiol.<br>(Addaswyd o Weithgor CPD Rhyngbroffesiynol a Dysgu Gydol Oes y Deyrnas Unedig 2019) |
| **Diogelu data** | 'Diogelu data yw defnyddio gwybodaeth am bobl yn deg a phriodol. Mae'n rhan o'r hawl sylfaenol i breifatrwydd – ond ar lefel fwy ymarferol, mae mewn gwirionedd yn ymwneud â chael ymddiriedaeth rhwng pobl a sefydliadau.'<br>(Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth 2019) |
| **Dysgu gydol oes** | 'Cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n caniatáu i'r unigolyn ddatblygu yn barhaus a gwella'r wybodaeth a'r sgiliau y mae arno eu hangen ar gyfer gwaith a boddhad personol.'<br>(Gweithgor CPD Rhyngbroffesiynol a Dysgu Gydol Oes y Deyrnas Unedig 2019) |
| **Dysgu wrth ymarfer** | 'Therapi galwedigaethol yn cael ei gyflwyno mewn amrywiaeth o leoliadau sy'n gadael i ddysgwyr ddefnyddio ac ymarfer eu gwybodaeth a'u sgiliau newydd mewn amgylchedd diogel. Yn draddodiadol mae dysgu wrth ymarfer wedi digwydd mewn lleoliadau lle mae'r rôl wedi ymsefydlu, fel ysbytai a gwasanaethau iechyd cymuned; ond, mae lleoliadau gwahanol a heb fod yn draddodiadol hefyd yn ganolog i raglenni cyn cofrestru. Mae cynnwys lleoliadau dysgu yn seiliedig ar ymarfer lle nad oes rôl therapi galwedigaethol ar y pryd yn bwysig i ddatblygu arweinwyr sydd â sgiliau arwain a all weithio mewn lleoliadau amrywiol.'<br>(RCOT 2019, t13) |
| **Dysgwr** | 'Unigolyn sydd wedi cofrestru ar raglen therapi galwedigaethol cyn cofrestru, pa bynnag lwybr mynediad i'r proffesiwn y mae'r dysgwr wedi cofrestru arno. Gall dysgwyr hefyd gael eu galw yn 'fyfyrwyr' neu, o ran rhaglenni prentisiaeth cyn cofrestru, "prentisiaid".'<br>(Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol 2019, t12) |
| **Ffyrdd o feddwl** | Agwedd feddyliol neu ddull sy'n pennu eich dehongliad o wybodaeth a sefyllfaoedd ymlaen llaw, eich ymateb iddynt a'ch ymddygiad. |

| | |
|---|---|
| **Galwedigaeth** | 'Mewn therapi galwedigaethol, mae galwedigaethau yn cyfeirio at y gweithgareddau bob dydd y mae pobl yn eu gwneud fel unigolion, mewn teuluoedd a gyda chymunedau i ddefnyddio eu hamser a dod ag ystyr a diben i'w bywydau.'<br>(Ffederasiwn y Byd o Therapyddion Galwedigaethol (WFOT) 2019)<br>'Mae galwedigaeth yn cynnwys y pethau sydd arnom angen, eisiau neu yr ydym yn gorfod eu gwneud.'<br>(Wilcock 2006, t14) |
| **Gallu** | Y gallu i wneud rhywbeth. Cam tu hwnt i fedrusrwydd; gall ymarferwyr galluog ymdrin â newid a chreu datrysiadau mewn sefyllfaoedd cymhleth<br>(McGee ac Inman 2019, t14) |
| **Gofalwr** | Rhywun sy'n darparu (neu'n bwriadu darparu), gyda thâl neu hebddo, swm sylweddol o ofal yn gyson i rywun o unrhyw oedran nad yw'n dda, neu sydd, am ba bynnag reswm, yn methu gofalu amdano ei hun yn annibynnol.<br>(Yn seiliedig ar Prydain. Senedd 1995)<br>Mae hyn weithiau yn cael ei rannu yn ofalwyr ffurfiol (gweithwyr gofal), sy'n cael eu talu am roi gofal, a gofalwyr anffurfiol (teulu yn aml), nad ydynt yn cael eu talu am roi gofal. |
| **Gwasanaeth** | Yng nghyd-destun y ddogfen hon, mae'r term 'gwasanaeth' fel arfer yn cyfeirio at y gwasanaeth therapi galwedigaethol yr ydych yn ei ddarparu fel unigolyn neu grŵp, yn hytrach na chyfeirio at yr adran neu gyfleuster therapi galwedigaethol. |
| **Gwahaniaethu** | Trin unigolyn, neu grŵp penodol o bobl, yn llai ffafriol nag y mae, neu y byddai un arall yn cael ei drin mewn sefyllfa debyg, ar sail nodwedd y gellir ei dynodi.<br>(Addaswyd o Asiantaeth yr Undeb Ewropeaidd dros Hawliau Sylfaenol, Cyngor Ewrop 2011, t22)<br>*Mae Deddf Cydraddoldeb 2010* yn dynodi'r nodweddion canlynol a ddiogelir: oedran, anabledd, ail-aseinio rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.<br>(Prydain Fawr. Senedd 2010, Pennod 1) |
| **Gweithlu therapi galwedigaethol** | Ar gyfer dibenion y ddogfen hon, term torfol yw hwn sy'n cynnwys therapyddion galwedigaethol, gweithwyr cefnogi a dysgwyr therapi galwedigaethol, gan gynnwys myfyrwyr a phrentisiaid. Mae'n berthnasol i ymarferwyr ym mhob rôl, gan gynnwys y rhai sydd mewn rolau arwain a rheoli, addysg, ymchwil, ymgynghori a chynghori ac yn gweithio mewn diwydiant. |

| | |
|---|---|
| **Lefel Ymarfer** | Yn cyfeirio at Lefelau Gyrfa 1–9 fel y maent yn cael eu diffinio gan Sgiliau ar gyfer Iechyd a'u defnyddio fel strwythur yn y Fframwaith Datblygu Gyrfa. Hefyd yn cyfeirio at eich lefel ymarfer ar y continwwm newyddian-arbenigwr. (Seiliedig ar Benner 1982) |
| **Lleoliadau amrywiol** | Lleoliadau neu rolau lle nad yw therapyddion galwedigaethol wedi gweithio yn draddodiadol. |
| **Moeseg** | Egwyddorion a gwerthoedd sy'n rheoli rhesymeg, gweithredoedd ac ymddygiadau unigolyn neu grŵp, mewn proffesiwn yn yr achos hwn. Mae'r rhain yn aml yn cyfeirio at gredoau am yr hyn sy'n iawn neu'n anghywir yn foesol. |
| **Moesegol** | Nodwedd neu statws sy'n disgrifio rhesymeg, gweithredoedd ac ymddygiadau unigolyn, grŵp (neu sefydliad) yn iawn yn yr ystyr foesol. |
| **Pileri Ymarfer** | Y pedwar Piler Ymarfer yw: Ymarfer Proffesiynol; Hwyluso Dysgu; Arweinyddiaeth; a Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu. Rhaid i ddysgu a datblygu ar hyd gyrfa gwmpasu elfennau o'r pedwar Piler i gael ymarfer diogel ac effeithiol. |
| **Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau** | Defnyddiwyd y term 'pobl sy'n defnyddio gwasanaethau' ar gyfer y rhai y mae therapyddion galwedigaethol yn rhoi ymyrraeth iddynt. Gall hyn fod yn unigolyn, teuluoedd a gofalwyr, grŵp neu gymuned. |
| **Rôl neu ymarfer generig** | Gall rôl generig gynnwys cyfuno tasgau oedd yn cael eu cyflawni yn y gorffennol gan broffesiynau gwahanol. Gall hyn fod yn rhan o rôl, neu'r rôl gyfan, er enghraifft rhoi cefnogaeth reoli ar draws ystod o grwpiau proffesiynol, neu gyflawni ystod o wiriadau iechyd yn y gymuned. |
| **Tegwch** | Diffinnir tegwch yn aml fel y cyflwr, nodwedd neu ddelfryd o fod yn gyfiawn, diduedd a theg. Mae'r cysyniad o degwch yn gysylltiedig â chyfiawnder a bod yn deg. |

# Adran 7
# Atodiadau

## Atodiad un: Crynodeb o'r adnoddau a ddefnyddiwyd fel sail i ddatblygu'r Fframwaith hwn (gan gynnwys y rhai a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r argraffiad cyntaf)


Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (2021) *Professional standards for occupational therapy practice, conduct and ethics* (yn y wasg)

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (2019) *Learning and development standards for pre-registration education: revised edition 2019*. Llundain: RCOT. Ar gael yn: https://www.rcot.co.uk/practice-resources/rcot-publications/learning-and-development-standards-pre-registration-education

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (2019) *Research and development strategy 2019–2024*. Llundain: RCOT. Ar gael yn: https://www.rcot.co.uk/practice-resources/rcot-publications/royal-college-occupational-therapists-research-and-development-strategy-20192024

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (2017) *Career development framework: guiding principles for occupational therapy. 1st edition*. Llundain: RCOT. [Dim ar gael bellach]

Coleg y Therapyddion Galwedigaethol (2009) *Occupational therapy support worker framework*. Llundain: COT.

Coleg y Therapyddion Galwedigaethol (2006) *Post qualifying framework: a resource for occupational therapists*. Llundain: COT.

Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (2016) *Standards of conduct, performance and ethics*. Llundain: HCPC. Ar gael yn: https://www.hcpc-uk.org/standards/standards-of-conduct-performance-and-ethics/

Cyngor Ymchwil Proffesiynau Iechyd Cysylltiedig (2019) *Shaping better practice through research: CAHPR research practitioner competency framework*. Ar gael yn: https://cahpr.csp.org.uk/content/cahpr-research-practitioner-framework

Cyngor y Deoniaid (2019) *Becoming research confident – Research in pre-registration curricula for nursing, midwifery and allied health programmes in the UK*. Ar gael yn: https://councilofdeans.org.uk/2019/05/new-report-becoming-research-confident-research-in-pre-registration-curricula-for-nursing-midwifery-and-allied-health-programmes-in-the-uk/

Cymdeithas Nyrsys Gofal Iechyd Cynradd Awstralia (2018) *Career & education framework for nurses in primary health care: registered nurses*. South Melbourne, AU: APHCNA. Ar gael yn: https://www.apna.asn.au/files/APNA%20Career%20and%20Education%20Framework%20for%20Nurses%20in%20Primary%20Health%20Care%20-%20Registered%20Nurses.pdf

Gofal Cymdeithasol Cymru (2017) *Occupational therapists in social care: a learning and development framework*. Caerdydd: Gofal Cymdeithasol Cymru. Ar gael yn: https://socialcare.wales/resources/occupational-therapists-in-social-care-a-learning-and-development-framework

Gweithgor CPD Rhyng-broffesiynol a Dysgu Gydol Oes y Deyrnas Unedig (2019) *Principles for continuing professional development and lifelong learning in health and social care*.

Bridgwater: Coleg y Parafeddygon. Ar gael yn: https://www.rcot.co.uk/practice-resources/rcot-publications/downloads/rcot-standards-and-ethics

Health Education England (2020) *Multi-professional consultant-level practice capability and impact framework.* Ar gael yn: https://www.hee.nhs.uk/sites/default/files/documents/Sept%202020%20HEE%20Consultant%20Practice%20Capability%20and%20Impact%20Framework.pdf

Health Education England (2017) *Multi-professional capability framework for advanced clinical practice in England*. Available at: https://www.hee.nhs.uk/our-work/advanced-clinical-practice/multi-professional-framework

Intensive Care Society (2018) *AHP critical care professional development framework*. Llundain: Intensive Care Society. Ar gael yn: http://www.ics.ac.uk/ICS/Resources___AHP_Framework.aspx

Llywodraeth Cymru [2019] *Allied health professions framework for Wales: looking forward together.* [Caerdydd: Llywodraeth Cymru]. Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-11/allied-health-professions-framework-for-wales-looking-forward-together.pdf

Llywodraeth Cymru (2014) *Framework for the development of consultant practitioner posts.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/890/Guidance%20Notes%20for%20the%20development%20of%20Consultant%20Practitioners%20April%202014.pdf

Llywodraeth Cymru, GIG Cymru (2020) *Modernising Allied Health Professions' Careers in Wales: A post registration framework*. Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-02/modernising-allied-health-professions-careers-in-wales.pdf

Macmillan Cancer Support (2017) *The Macmillan allied health professions competence framework*. [Llundain]: Macmillan Cancer Support. Ar gael yn: https://www.macmillan.org.uk/_images/allied-health-professions-framework_tcm9-314735.pdf

MS Trust, Parkinson's UK and Motor Neurone Disease Association (2018) *Allied health professionals' competency framework for progressive neurological conditions*. [Llundain]: [Parkinson's UK]. Available at: https://www.parkinsons.org.uk/sites/default/files/2018-10/AHP%20Competency%20framework%202018_0.pdf

National Improvement and Leadership Development Board (2016) *Developing people: improving care: a national framework for action on improvement and leadership development in NHS-funded services*. [Llundain]: [NHS Improvement]. Ar gael yn: https://improvement.nhs.uk/documents/542/Developing_People-Improving_Care-010216.pdf

National Leadership and Innovation Agency for Healthcare [ca. 2010] *Framework for advanced nursing, midwifery and allied health professional practice in Wales*. Llanharan: NLIAH. Ar gael yn: https://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/829/NLIAH%20Advanced%20Practice%20Framework.pdf

NHS Education for Scotland (2016) *Post registration career development framework for nurses, midwives and AHPs*. [s.l.]: [s.n.]. Ar gael yn: http://www.careerframework.nes.scot.nhs.uk/

NHS England; Health Education England [ca. 2018] *Integrated urgent care competency framework*. [s.l.]: NHS England. Ar gael yn: https://www.england.nhs.uk/urgent-emergency-care/nhs-111/integrated-urgent-care-nhs-111-workforce-blueprint/

NHS Leadership Academy (2013) *Healthcare leadership model*. [Llundain]: NHS Leadership Academy. Ar gael yn: https://www.leadershipacademy.nhs.uk/wp-content/uploads/2014/10/NHSLeadership-LeadershipModel-colour.pdf

Northern Ireland Practice and Education Council for Nursing and Midwifery (2017) *Interim career development framework for specialist practice nursing roles: supporting specialist practice nursing in health and social care*. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.nursingandmidwiferycareersni.hscni.net/

Skills for Care; Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (2019) *Learning and development framework for occupational therapists new or returning to social care*. [Llundain]: Skills for Care; Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol. Ar gael yn: https://www.skillsforcare.org.uk/Learning-development/Regulated-professionals/Occupational-therapists.aspx

Skills for Health (n.d.) *Career frameworks: allied health professions (AHP)*. [s.l.]: [Skills for Health]. Ar gael yn: http://www.skillsforhealth.org.uk/career-framework/?sec=c

Skills for Health National Occupational Standards. [Online]. [s.l.]: Skills for Health. Ar gael yn: https://skillsforhealth.org.uk/info-hub/national-occupational-standards-overview/

Skills for Health (2018) *Musculoskeletal core capabilities framework*. [s.l.]: Skills for Health. https://www.skillsforhealth.org.uk/services/item/574-musculoskeletal-core-skills-framework

Tîm Dysgu a Datblygu Gofal Cymdeithasol Oedolion, Cyngor Sir Gwlad yr Haf (2016) *Supported first year in practice framework for newly qualified occupational therapists*. Leeds: Skills for Care. Ar gael yn: https://learnfromothers.skillsforcare.org.uk/Library/Somerset%20ASYE%20for%20social%20workers%20and%20OTs.pdf

Vitae (2019) *Supporting researcher career development*. [s.l.]: [s.n.]. Ar gael yn: https://www.vitae.ac.uk/doing-research/leadership-development-for-principal-investigators-pis/developing-individual-researchers/supporting-researcher-career-development

West M, Eckert R, Collins B, Chowla R (2017) *Caring to change: how compassionate leadership can stimulate innovation in health care*. [Llundain]: Cronfa'r Brenin. Ar gael yn: https://www.kingsfund.org.uk/sites/default/files/field/field_publication_file/Caring_to_change_Kings_Fund_May_2017.pdf

Yr Adran Iechyd (2019) *Advanced AHP ymarfer framework: guidance for supporting advanced allied health professions in practice in health and social care*. [Gogledd Iwerddon]. Belfast: DH. Ar gael yn: https://www.health-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/health/AHP-Framework.pdf

Yr Adran Iechyd (2004) *The NHS knowledge and skills framework (NHS KSF) and the development review process*. Llundain: DH. Ar gael yn: http://www.nhsemployers.org/

**Agorwyd yr holl wefannau ar 17/11/2020.**

# Atodiad dau: Ffurflen hunan-werthusiad cychwynnol

| Piler | Meysydd i'w datblygu ymhellach (rhowch y codau, e.e. P7.4, F5.6, L6.8, E4.3) |
|---|---|
| Ymarfer Proffesiynol (P) | |
| Hwyluso Dysgu (F) | |
| Arweinyddiaeth (L) | |
| Tystiolaeth, Ymchwil a Datblygu (E) | |

# Adran 8
# Cyfeiriadau ac adnoddau


Asiantaeth yr Undeb Ewropeaidd dros Hawliau Sylfaenol, Cyngor Ewrop (2011) *Handbook on European non-discrimination law*. Luxembourg: Europe Swyddfa Gyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd. Ar gael yn: https://fra.europa.eu/en/publication/2011/handbook-european-non-discrimination-law-2011-edition

Benner P (1982) From novice to expert. *American Journal of Nursing, 82(3)*, 402–407.

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (2021) *Professional standards for occupational therapy practice, conduct and ethics* (yn y wasg)

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (2019) *Learning and development standards for pre-registration education: revised edition 2019*. Llundain: RCOT. Ar gael yn: https://www.rcot.co.uk/practice-resources/rcot-publications/learning-and-development-standards-pre-registration-education

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018) *Understanding equality. What is equality?* Llundain: Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Ar gael yn: https://www.equalityhumanrights.com/en/secondary-education-resources/useful-information/understanding-equality

Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (2013) *Standards of proficiency: occupational therapists*. Llundain: HCPC.

Ffederasiwn y Byd o Therapyddion Galwedigaethol (2019) *About occupational therapy*. Llundain: WFOT. Ar gael yn: https://www.wfot.org/about/about-occupational-therapy

Gwasg Prifysgol Caergrawnt (2020) Cambridge English Dictionary. [s.l.]: [s.n.]. Ar gael yn: https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/

Gweithgor CPD Rhyngbroffesiynol a Dysgu Gydol Oes y Deyrnas Unedig (2019) *Principles for continuing professional development and lifelong learning in health and social care*. Bridgwater: Coleg y Parafeddygon. Ar gael yn: https://www.rcot.co.uk/practice-resources/rcot-publications/downloads/rcot-standards-and-ethics

Harvey L (2020) *Analytic quality glossary*. [s.l.]: Quality Research International. Ar gael yn: http://www.qualityresearchinternational.com/glossary/index.htm#c

McGee P, Inman C gol (2019) *Advanced practice in healthcare: dynamic developments in nursing and allied health professions*. 4ydd argraffiad Chichester: John Wiley & Sons.

Morais L (2018) Conceptualising CPD as the occupational therapy process: accessing, intervening and evaluating your career. *OTnews, 26(12)*, 48–51.

Morais L, Ahmad K, Tempest S (2018) To support myself, support others and support transitions. *OTnews*, 26*(9)*, 38-41.

Queensborough Community College (2018) *Definition for diversity*. Bayside, NY: Coleg Cymunedol Queensborough. Ar gael yn: http://www.qcc.cuny.edu/diversity/definition.html

Prydain. Senedd (2010) *Deddf Cydraddoldeb 2010*. Llundain: Y Llyfrfa. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents

Prydain. Senedd (1995) *Carers (Recognition and Services) Act 1995*. Llundain: HMSO. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/12

Sainty M (2018) Stepping into retirement? *OTnews*, *26*(2), 28–29.

Silcock H, Dunn R (2019) Supporting and promoting CPD engagement. *OTnews*, *27*(3), 46–47

Skills for Health (2020) Employability skills matrix for the health sector. Bryste Skills for Health. Ar gael yn: https://skillsforhealth.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/Employability-skills-matrix.pdf

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (2019) *Guide to the General Data Protection Regulation*. Wilmslow: ICO. Ar gael yn: https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/

Wilcock AA (2006) *An occupational perspective of health*. 2il argraffiad Thorofare, NJ: Slack.

**Agorwyd yr holl wefannau ar 17/11/2020.**



rcot.co.uk
**Ffôn: 020 3141 4600**

© Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol Cyf. Elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (Rhif 275119) ac yn yr Alban (Rhif SCO39573)
a chwmni cofrestredig yn Lloegr (Rhif 1347374)